

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 302 - 60c
Ebrill 2012

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Ennill cadair Ysgol



Tudalen 6

Sêr y byd rygbi



Tudalen 12

Ymlaen i Steddfod Eryri



Tudalen 24

BRENNINES C.F.F.I. CEREDIGION



Mewn dawns a gynhaliwyd gan CFFI Ceredigion yn ddiweddar dewiswyd Gwennan Davies o Glwb Llanwenog yn Frenhines y mudiad am 2012-2013, a Ffermwr Ifanc y Flwyddyn yw Llion Davies o Glwb Troedryaur. Eu morwynion yw (o'r chwith) Siwan Haf Jones, Troedryaur; Katie-Ann Briddon, Caerwedros; Cerys Jones, Llanwenog ac Elin Dafydd, Troedryaur.



Disgyblion Ysgol Carreg Hirfaen yng nghystadlwaueth Trawsgwlad Dyfed. Daeth Beca Ann Jones yn gyntaf yn ras blwyddyn 4, gyda Beca Mai Roberts yn drydydd. Cafodd Lowri Aur ras dda a ddaeth y dair yn ail yng nghystadlwaueth tim merched blwyddyn 4. Clod enfawr hefyd i Beci Harrison a Daniel Ifan Jones am ddod yn chweched yn eu rasys hwy.



Ysgol Carreg Hirfaen yn ennill cystadlwaueth y Parti Unsain i ysgolion dros 50 o blant yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion ac yn awr yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Eryri ar ddechrau mis Mehefin.

Rhagor o luniau ar dudalennau 2, 21 a 22.

Y Ffilltir Sgwâr



Timau Dan 13 A a B a Dan 15 Clwb Hoci Llanybydder a fu'n cystadlu yn Nhwrnamaint olaf y tymor a gynhaliwyd yn ddiweddar ar yr astro yn Llambled. Cafwyd gemau agos iawn yn erbyn timau o Abergwaun a Chwmtawe.

Mae Tîm Cyntaf y Clwb yn chwarae yng Nghyngraig De Orllewin Cymru ac mae 4 gêm i'w chwarae cyn diwedd y tymor. Dewch i gefnogi'r Clwb. Erbyn i rifyn hwn o Clonc ymddangos bydd y Tîm wedi chwarae yn erbyn Llandysul, Crymch a Dinbych y Pysgod ac ar Nos Fawrth, Ebrill 17eg bydd y Tîm yn chwarae oddi catref yn Abergwaun.



Tîm Panto CFFi Llanwenog a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth sir



Recycling Ltd



Angen Sgip?
**Diwydiannol, Masnachol
 neu i'r cartref.**
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambled, Ceredigion, SA48 8LT

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
 INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
 T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
 Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.



Swyddogion cangen Llanybydder a Llambled o Ymchwil Cancr yn cyflwyno sic o £5800 i Carrie Barlow Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Ardal, arian a godwyd yn ystod y flwyddyn 2011. O'r chwith Cyril Davies, Joan James, Carrie Barlow, Aneurin Davies a Bet Davies. Ers ffurfio'r gangen yn 1979 codwyd £262,845.81 tuag at waith ymchwil i gancr.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305



Cynhaliodd "Duet" a "Lan Lofft" sioe ffasiwn lwyddiannus yn ddiweddar yng ngwesty Glynhegog, pan gyflwynwyd sic o £3,925 i fudiad "Parkinson UK". Yn y llun mae, Liz Mills, Llywydd y Noson; Sara Bass, o "Parkinson UK"; Janice Williams, Duet; Heather Price a gyflwynodd £750 ar ran fanc Barclays, Llambled o dan y cynllun £ am £ ac Angharad Williams, Lan Lofft.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Ebrill Rhian Lloyd, Awel y Môr, Ffosyffin 01545 571234
e-bost: golygydd@clonc.co.uk 07971 375068
Mai Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Morgans

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.

- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gwynys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Tywydd bendigedig – ond!

Newydd fod yn gwylio rhaglen amaethyddol ar y teledu a'r pryder ofnadwy mewn rhannau o Loegr am y prinder dŵr. Y gofid fod llawer o ffermwyr yn gwynebu colledion enfawr gan fod y tir yn rhy sych i adael i'r grawn egino. Mae'n edrych yn eithaf da arnom ni y ffordd yma, ar hyn o bryd, ond fe all y tywydd newid yn gyflym iawn. Gall tywydd fod mor wahanol o fewn ychydig filltiroedd. Cofiaf un penwythnos pryd yr oedd sawl un ohonom yn adeiladu tai. Pawb wedi gorfod peidio ag adeiladu oherwydd cawodydd trwm, ond ein tŷ ni. Roedd y cawodydd trwm yn mynd heibio naill ochr i ni a ninnau'n cario ymlaen i weithio. Y cyfarch gefais fore Llun gan fy nghydweithwyr oedd "Mae na lwc i rai".

Cyllideb

Dyma'r tro cyntaf i ni ddod i wybod bron y cyfan o gynnwys y gyllideb ddyddiau cyn iddi gael ei chyhoeddi yn y Senedd. Mae hwn wedi dod yn beth cyfarwydd yn mhob maes. Y newyddion yn datgan cynnwys anerchiad y Gweinidog oriau cyn iddo gael ei gyhoeddi yn y Senedd. Diolch fod yr Eisteddfod yn cadw clawr dros fuddugwyr yr Eisteddfod cyn dydd y coroni neu'r gadeirio. Hanner yr hŵyl yw'r dyfalu.

Iechyd

Mae'r ddamwain gafodd aelod o dîm Pêl Droed Bolton yn ddiweddar yn gwneud i bawb sylweddoli mor fregys yw bywyd. Diolch fod cyfarpar cywir ar y maes i gynorthwyo'r gwaith o'i adfywio.

Mae'n wyrthiol fel i

feddyg oedd yn gwylio'r gêm gerdded o'r dyrfa i gynorthwyo'r gweithwyr Cymorth Cyntaf a chyfarwyddo'r gwaith o achub bywyd Fabrice Muamba.

Diau fod llawer o fywydau yn ddyledus i gymorth para-feddygon sydd bob amser wrth law. Trueni fod y rhain yn cael eu beio am fethu cyrraedd damweiniau o fewn yr amser penodedig. Byddai'n eithaf peth i'r goruchwylwyr gael y profiad o deithio heolodd cefn gwlad gyda cherbyd enfawr yn dod i'w cwrdd. Rhyfedd y galw am Weddi!

Gydag aelodaeth ein Capeli a'n Eglwysi yn lleihau a'r nifer sy'n mynychu llefydd o addoliad yn llai fyth, mae'n syndod mewn argyfwng y lle sydd i 'weddi' mewn bywydau pobol. Roedd yn ryfeddod gweld chwaraewyr pêl droed a sloganau "Prey for Muamba" ar eu crysau.

Lecciwn

Mae'n rhaid i fi fod yn ofalus iawn wrth eirio'r darn yma o Siprys, rhag ochru gydag un person yn fwy na'r llall. Gwaith di-ddiolch dybiaf i yw bod yn gynghorydd ar bob lefel. Disgwylir iddynt fod yn bopeth i bob un. Maen bwysig cofio enwau pawb o'r babi i'r ci. Gair o gyngor – 'fedrwyd chi byth plesio pawb'. Gwrandewch yn ofalus, byddwch yn amyneddgar gyda phawb, peidiwch a gwylltio, a chofiwch fod bob amser yn ddiolchgar, a dwedwch bob tro os mewn bach o gornel, 'fe feddylia'i am y peth'. Bydd y rhai sy'n fy adnabod yn deall na fydden i gwerth dim fel cynghorydd!!!.

Cloncyn

Gohebiaeth Clonc



Annwyl Olygydd

Yn ystod y misoedd diwethaf mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gan Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion yn yr ardal hon i drafod ad-drefnu addysg yn ardaloedd Cwrtnewydd, Llanwnnen a Llanwenog. Cynllun y sir yw i gau ysgolion Llanwnnen a Llanwenog ac adeiladu estyniad i Ysgol Cwrtnewydd er mwyn creu ysgol ardal. Cost y cyfan yw £2.2m. Dywed y Cyfarwyddwr Addysg y bydd yn arbed £72,000 y flwyddyn wrth agor ysgol ardal heb gynnwys costau teithio. Mae £1.9m o'r arian hyn yn fenthyciad, a gyda llog o'i fenthyciad yn £90,000 y flwyddyn, mae'n anodd gweld sut gall hyn fod yn arbediad.

Dyma'r unig opsiwn a gynigir gan y sir. Does dim llawer o gyfle wedi bod yn y cyfarfodydd i drafod opsiynau eraill. Gellir cadw y dair ysgol fel ag y maent o dan system ffederal. Wedi'r cyfan, buddsoddwyd arian mawr yn Ysgol Llanwnnen gan Gyngor Sir Ceredigion ar ôl iddi ddioddef niwed tân ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae esgobaeth yr eglwys yng Nghymru wedi cyfrannu'n hael iawn yn ariannol tuag at gostau cynnal a chadw adeilad Ysgol Llanwenog ar hyd y blynyddoedd. Byddai'n gwneud mwy o synnwyr i adeiladu ar y buddsoddiadau yma gan wella darpariaeth bresennol y dair ysgol ymhellach a'u bod yn parhau yn adnodd defnyddiol i'r dair gymdogaeth.

Mae yna opsiwn arall hefyd sef cael ysgol newydd sbon ar dir niwtral. Byddai hyn yn golygu cael adeilad modern sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain fel sydd yn datblygu mewn mannau eraill ar hyd y sir. Ysgol a fyddai wedi'i lleoli ynghanol y dair gymdogaeth a effeithir gan yr ad-drefnu yma gan fod yna ddadl cryf nad Cwrtnewydd yw'r safle canolog gorau ar gyfer y fath ddatblygiad.

Dywed y ddogfen ymgynghori bod misoedd Chwefror i Ebrill – '... yn gyfnod i'r gymuned i drafod y cynnig, i ofyn cwestiynau i'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol ac i ddanfon sylwadau.' Felly anogwn rieni, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned i ddanfon eich sylwadau cyn Mai 14eg at Tîm Datblygu Addysg, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3UE neu ar e-bost at addysg@ceredigion.gov.uk

Yn gywir

Huw Davies Llywodraethwr Ysgol Llanwenog
Hefin Davies Rhiant Llywodraethwr Ysgol Llanwenog

Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth

Nodir gan
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government





EBRILL

- 9 Taith tractorau yn gadael Cross Roads Llanllwni am 10.30yb. Elw tuag at Blant Sir Gâr. Manylion pellach oddi wrth Tom Lewis 01559 384279.
- 11 Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen i ddechrau am 1.30y.p.
- 15 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel y Graig, Llandysul am 4.00y.p ac am 5.00y.p.
- 15 Rihysal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled yn Salem, Caio am 2.00y.p.
- 19 Pigion yr Eisteddfod yn Neuadd Ysgol Cwrtnewydd am 7y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 19 Fforwm Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru yn cynnal Ffair Fwyd a Chrefftau Cymreig yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron o 4yp tan 8yh. Croeso cynnes i bawb.
- 21 Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch.
- 21 Cyngerdd gan Côr Cwmann a'r Cylch ynghyd a Aled Edwards, Eleri Owen Edwards, Kees Huysmans a parti bechgyn Dyffryn Cothi yn Neuadd Brofana Ffarmers am 7.30y.h. Arweinydd: Lyn Richards. Elw tuag at Ambiwllans Awyr ac Ymchwil y Cancr.
- 22 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Rhydygwin am 4.00y.p ac am 5.00y.p.
- 24 Bingo Cymdeithas Amaethyddol Llanbed gyda Harold yn y Llew Du Llambled am 8yh.
- 24 Pwyllgor Rali CFFI Llanwenog 2012 am 7.30 yn Ysgol Cwrtnewydd.
- 24 Gyrfa Chwist yn y Llew Du Llanybydder 8 o'r gloch. Elw at Elusenau lleol.
- 29 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Rhydygwin, Temple Bar. Plant ac Ieuenctid am 2 a'r Oedolion am 5.30y.h.

MAI

- 7 Calan Mai Ysgol Cwrtnewydd yn dathlu 25 mlynedd o gynnal Ras Calan Mai. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r ysgol 01570 434273.
- 11 Noson Goffi yn Ffestri Aberduar am 7:00 y.h. Adloniant gan Blant Ysgol Gynradd Llanybydder a Chôr Lleisiau'r Werin. Croeso i bawb. Trefnir gan Bwyllgor Buddianau'r Henoed, Llanybydder.
- 13 Rihysal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled ym Methel, Silian am 2.00y.p.
- 20 Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled ym Methel, Cwm Pedol am 2.30y.p. a 6.00y.h.

MEHEFIN

- 2 Rali C Ff I Ceredigion ar fferm Llechwedd, Llanwenog
- 3 Cymanfa Ganu'r Rali yn Eglwys Llanwenog.
- 4 Carnifal Cwmann ar gae'r pentref.
- 30 Diwrnod Hwyl Ysgol Gynradd Llanwenog.

GORFFENNAF

- 14 Mabolgampau pentref Cwrtnewydd ar gaeau Ysgol Cwrtnewydd.

AWST

- 11 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 18 Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.

Llanfair Clydogau

Gwellhad buan

Da oedd clywed fod Ceri Cranfield, Bronhaul, Heol Llanfair wedi dod adref ar ôl cyfnod byr yn yr ysbyty. Gobeithio y bydd yn cael gwellhad llwyr yn fuan.

Bowlio Mat Byr

Mae diddordeb mewn bowlio yn Llanfair yn mynd o nerth i nerth. Er fod y rhan fwyaf yn weddol di brofiad, gydag ymarfer mae y sefyllfa yn gwella.

Er mwyn asesu y gwelliant, gwahoddwyd tîm o Lanilar lawr i Lanfair am gêm. Er fod Llanilar wedi ennill cafwyd gemau da a noswaith bleserus dros ben. Diolch i'r merched a fu yn brysur yn paratoi y cacennau hyfryd.

Nawr fod y Gwanwyn wedi cyrraedd mae'r nosweithiau bowlio sydd wedi eu cynnal bob yn ail nos Sadwrn dros y gaeaf wedi dod i ben. O'r chwe tîm oedd yn cymryd rhan y tim mwyaf llwyddiannus oedd tim Iris Quan. Llongyfarchiadau iddynt.

Taith Gerdded

Ar ddydd Sul, Mawrth 25ain daeth ugain o drigolion y pentref ynghyd i gymeryd rhan mewn taith gerdded i Gors Caron wedi ei threfnu gan Eleri ac Arwyn Davies Pentre. Cerddwyd ar hyd yr hen reilffordd gyda rhai

yn mynd ar hyd y llwybr hir i lawr i'r gors a'r afon a'r lleill yn dilyn y llwybr byrrach.

Cafodd pawb fwynhad enfawr ar ddiwrnod mor braf o Wanwyn a phleser oedd cael aros yn y Talbot ar y ffordd adref i dorri ein syched.

Cawl a Chwist

Cynhaliwyd cawl a chwist yn y neuadd ar nos Sadwrn Mawrth 3ydd, wedi ei drefnu gan Sefydliad y Merched i ddathlu dydd Gŵyl Ddewi. Gwnaeth y noson ddenu digon i lanw wyth bwrdd, gyda Gwyneth Jones, Noyadd yn gwneud gwaith arbennig wrth y llyw. Eleanor Evans, Nantymedd wnaeth baratoi y cawl blasus a'r merched y pwdinau arbennig gyda phawb wedi mwynhau y bwyd, y chwarae a'r cyfeillgarwch.

Cydymdeimlo

Hoffem gydymdeimlo a Ieuan Thomas, Y Felin a'r teulu ar farwolaeth ei fam yng nghyfraith Gwladys Davies, Ffair Fach. Roedd wedi cyrraedd oedran arbennig yn 92 oed. Cydymdeimlwn hefyd a Pat Martin, Pentrebannau, a'r teulu, ar golli ei mham, Ethel Cummif oedd yn nabyddus fel Gran, a hithau hefyd wedi cyrraedd oedran arbennig yn 97 oed.

Cwmsychpant

Bedydd



Ar Fore Sul olaf ym mis Chwefror fe fedyddiwyd efeilliaid gan Y Parch Wyn Thomas. Nid oedd efeilliaid wedi eu bedyddio yng Nghapel y Cwm ers cyn cof ac felly roedd yn fore hanesyddol iawn. Bedyddiwyd Dion Siencyn ac Anna Siencyn, mab a merch Meurig a Menna, Tyclyd, Drefach. Roedd y capel yn llawn o dystion i'r achlysur arbennig yma ac roedd plant yr Ysgol Sul hefyd yn bresennol. Wrth yr organ oedd Mrs Eleri Jenkins, Alltlyblaca.

Arholiad Ysgol Sul

Cafodd blant Ysgol Capel y Cwm arholiad Ysgol Sul yn ddiweddar gyda Mrs Nanna Ryder. Roedd aelodau Ysgol Sul Bwlch y Fadfa hefyd wedi dod draw i gael yr arholiad yn Cwm.

Cymdeithas Alzheimer's ar weith ym gychwyn yr ymgyrch yn seilysu dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grŵp codi arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae yna rhywbeth i bawb

Mae 40,700 o bobl â dementia yng Nghymru ac mae'r figwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632 neu e-bostio : gillian.morgan@alzheimers.org.uk

Elusen gofrestredig rhif 296645

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes, Llanwnnen SA48 7LE 01570 434548 www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosfiwydd, blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiau, coed frwythau a mwy!

Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Cegin Gareth
Goedwig Llanbedr P.S. SA48 7JP 01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion*

Sefydliad y Merched

Ar y 5ed o Fawrth daeth y Gangen ynghyd yn Mark Lane, Llanbed i ddathlu Gwyl Dewi. Croesawodd Mary Davies, y Llywydd, bawb i'r noson ac ar ôl bwyd croesawodd y gwr gwadd, y Parch Roger Thomas a'i wraig Maureen. Yr oedd y rhan fwyaf oedd yn bresennol yn eu cofio fel Roger a Maureen y Ram. Maent yn nawr yn byw yn Llanwrda lle cafodd Roger ei eni. Ei destun oedd y gwahanol wisgoedd sydd yn cael eu defnyddio gan offeiriaid ar wahanol achlysuron a thymorau a beth y maent yn dynodi. Diolchodd Ann Lewis i Roger am noson ddiddorol dros ben. Diolchodd hefyd i Mark Lane am y bwyd ardderchog. Llongyfarchwyd Mary Davies ar ddathlu penblwydd arbennig.

Estynodd Gwyneth Morgan ddiolch i bawb am bopeth a gafodd oddi wrth yr aelodau yn ystod ei salwch.

Dymunwyd wellhad buan i Gwynfil Griffiths. Llongyfarchwyd Iona am ddod yn gydradd pedwerydd yn y 'Dominos'.

Daeth y tim yn gyntaf yn yng nghwis blynyddol y C.F.I. Cyfarfod nesaf ar 2ail o Ebrill am 7.30 gydag Erlys Lloyd yn siarad am waith y Samariaid yn y gymuned.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Cerys Roberts, Caeronnen a Christina Davies, Pleasant View ar ennill Gwobr Deilyngdod yn ddiweddar yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad, Prifysgol Aberystwyth. O ganlyniad i hyn mae'r ddwy wedi ennill swm ariannol a cael eu derbyn i'r brifysgol. Da iawn chi ar eich llwyddiant.

Diolch

Derbyniodd Mrs. Ruthie Williams, Rhiwlan, clun newydd yn ysbyty Glangwili. Ar ôl pedwar diwrnod yno, aeth at y teulu i Langynwyd am ddau fis i gael gofal. Tra bu yno, derbyniodd alwadau ffôn, cardiau ac anrhegion. Diolch yn fawr i bawb.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Naomi, Hafodlon, am ddod yn gyntaf a Lowri yn drydydd mewn ras hwyl yn Llanddewi yn ddiweddar.

Ysbyty

Yn dilyn llawdriniaeth dymunwn adferiad buan i Alun Jones, Glanrhyd a Anita Williams, Gwelycoed a dymuniadau gorau i Charles Evans, Brynmaen a Beryl Doyle, Caradog View, sydd yn Ysbyty Glangwili.

Diolch

Dymuna Gwyneth, Llety'r Dderwen, diolch yn gynnes iawn i bawb a ymwelodd â hi, y galwadau ffôn niferus a'r holl roddion a

dderbyniodd trwy gydol ei salwch. Mae wedi gwerthfawrogi hyn yn fawr ac yn maent yn ddiolchgar fel teulu am eich caredigrwydd.

Dymuna Jenkin a Evanna Mason diolch i bawb am y llu o gardiau, blodau, galwadau ffôn, rhoddion a'r holl dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas aur. Diolch hefyd i bwyllgor y pentre am gael defnyddio y ganolfan i ddathlu. Diolch yn fawr iawn.

Clwb 225 Mis Mawrth

1. 184, Derek Hopkins, 12 Treherbert, Cwmann, 2. 80, Christina a Shaun Davies, Pleasant View, 3. 125, Geraint a Meleri Jones, Islwyn, Heol y Bont, Llanbed, 4. 92, Adrian Davies, Hafodlon, Cae Ram, 5. 140, Wynford Thomas, Pantygwin, Cellan, 6. 178, Gethin Jones, Croesor, Cwmann, 7. 154, Mrs. E. Lewis, Tanlan, Cwmann, 8. 28, Gwyn Williams, Wyngarth, Cwmann, 9. 192, Mrs. E. Jones, 3 Heol Hathren, Cwmann, 10. 202, Harold Williams, Ty Howell, Cwmann.

Clwb 125 Mawrth

1. Miss. Gwen Jones, Perrymor, Cellan, Lampeter, 13, 2. Mrs. Pat Jones, Glanhathren, Cwmann, 106, 3. Mr. Danny Davies, Brynteify, Cwmann, 72, 4. Mrs. Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 79, 5. Mrs. Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 92, 6. Mrs. Ceinwen Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 30, 7. Mr. Edwin Evans, Brynderw, Cwmann, 4, 8. Women's Workshop, Cwmann, 112, 9. Mr. Rhys Jones, Tan y Bryn, Cwmann, 87.

Ysgol Carreg Hirfaen

Cynhaliwyd Trawsgwlad Cylch Llambled ar Fawrth 16eg a braf oedd gweld bron pob plentyn yng nghyfnod Allweddol 2 yn cymeryd rhan a chynrychioli'r ysgol.

Pob lwc i'r canlynol a fydd yn cynrychioli cylch Llanbed yn y sir ar ddiwedd Mis Ebrill-

Gwennan Rowcliffe 9fed, Lowri

Fflur 8fed, Dafydd Jones 2ail, Daniel Aled 4ydd, Scott Griffiths 6ed, Beca Ann Jones 1af, Beca Mai Roberts 3ydd, Lowri Aur Davies 6ed, Megan Davies 9fed, Elin Williams 10fed, Daniel Ifan Jones 1af, Llywelyn James 2ail, Lisa Evans 7fed, Chloe Chester 8fed, Beci Harrison 1af, Naomi Davies 4ydd, Lucy Robertson 5ed, Kelsie Flavell 8fed, Rupert Geddes 5ed ac Ewan Bowden 4ydd.

Cawsom lwyddiant arbennig yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Dyfed yn ystod y mis.



Daeth Beca Ann Jones yn gyntaf yn ras blwyddyn 4, gyda Beca Mai Roberts yn drydydd. Ras gyffrous iawn ac yn agos iawn erbyn y diwedd. Cafodd Lowri Aur ras dda a ddaeth y dair yn ail yng nghystadleuaeth tim merched blwyddyn 4. Clod enfawr hefyd i Beci Harrison a Daniel Ifan Jones am ddod yn chweched yn eu rasys hwy.

Buodd plant yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth Celf yr Urdd yn ddiweddar. Cafwyd llwyddiant efo gwaith argraffu blwyddyn 2. Cafodd Mali Jones y wobwr gyntaf, Seren James yr ail wobwr a festyn Plant y dryddydd wobwr. Mae gwaith Mali yn awr yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol. Dymunwn pob lwc iddi.

Bu tim rygbi hyn yr ysgol yn cymeryd rhan yng Nghystadleuaeth Rygbi Sir Ceredigion yn ddiweddar.

Roedd pedwar o'r garfan yn ferched. Braf iawn oedd gweld tim Carreg Hirfaen yn datblygu o gêm i gêm wrth chwarae yn erbyn ysgolion eraill Ceredigion. Gorffennodd Carreg Hirfaen y dydd yn gydradd drydydd. Da iawn chi.

Yn ddiweddar bu James Thomas, milfeddyg lleol a'i gynorthwywraig Becky yn ymweld â dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen i drafod eu swyddi. Cafwyd llawer o hwyl yn enwedig gan fod Mango y ci a Rocky y crwb wedi ymweld hefyd.

Bu plant yr ysgol yn brysur iawn yn Cystadlu mewn Eisteddfodau yn ystod y mis. Cafwyd cystadlu brwd yn ein eisteddfod ysgol a gynhaliwyd yn neuadd Brofanna, Ffarmers ar Fawrth y 1af. Agos iawn oedd y cystadlu ond Teifi gipiodd y tlws y ty gorau ar ddiwedd y dydd. Enillwyd cadair CA2 gan Lisa Elan Evans, Cadair Cyfnod Sylfaen gan Mali Jones a'r darian am y gwaith Saesneg gan Ewan Bowden. Enillwyr yr unigolion efo'r pwyntiau uchaf oedd Lisa Elan ac Undeg Jones yn CA 2 a Mali Jones yn y Cyfnod Sylfaen. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Prysur hefyd oedd ein disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd cylch Llambled. Enillodd y cor a'r parti unsain, daeth y dawnsio disgo yn ail ar ol cystadleuaeth agos iawn a'r parti llefaru yn drydydd. Cawsom lwyddiant efo'r unigolion hefyd gyda Naomi Davies yn 1af am lefaru bl 5 a 6, Beci Harrison yn gyntaf ar y chwythbrennau, Lisa Elan yn 2il am ganu i flynyddoedd 5 a 6 a Beca Ann yn 2il am ganu ym mlwyddyn 3 a 4.

Bu cystadlu brwd ym Mhafiliwn Pontrhyfendigaid yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Cafodd y plant ddiwrnod da iawn a dyma'r canlyniadau:

Parti Unsain – 1af; Côr – 3ydd ac Unawd chwythbrennau bl. 6 ac iau – 2il Beci Harrison. Edrychwn ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Eryri ar ddechrau mis Mehefin. Diolch yn fawr i'r plant, y staff, aelodau'r gymuned a'r rhieni am eu holl waith yn ystod y cyfnod o hyfforddi a chefnogi ar gyfer yr eisteddfodau.

Ar ddydd Gwener 23ain o Fawrth cynhaliwyd diwrnod codi arian i Cystic Fibrosis. Mae Nancy, cyfnither Cari, Llion a Mared yn dioddef o'r salwch. Gwisgodd y plant mewn dillad coch a glas sef lliwiau'r logo. Codwyd £235. Diolch i'r plant a'r rhieni am eich cefnogaeth.

Erbyn i chi ddarllen Clonc bydd disgyblion blynyddoedd 3 a 4 wedi bod ar ymweliad preswyl i wersyll yr Urdd Llangrannog. Cewch glywed yr hanes rhifyn nesaf.



Mali Jones enillodd y Tlws am ysgrifennu yn Adran Cyfnod Sylfaen, Enillydd y Gadair am stori cymraeg oedd Lisa Elan Evans ac Ewan Bowden yn derbyn y Tlws am y dyddiadur Saesneg gorau.

Drefach a Llanwenog

Eglwys Santes Gwenog.

Ym mis Mawrth cynhaliwyd cyfarfod misol Henoed y plwyf yn yr eglwys. Braf oedd clywed plant ysgol Llanwenog yn eu diddori ar lafar ac ar gân. Diolch i'r athrawon am eu paratoi ac hefyd i wragedd yr eglwys am baratoi lluniaeth ysgafn i bawb.

Yn ystod y Garawys roedd croeso i bawb gwrdd yn yr eglwys fach i drafod y pynciau amserol sy'n arwain at Y Pasg. Diolch i'r Parch Suzy Bale am ei harweiniad a'i chyflwyniadau.

Mae'r Noson Gwis yn tyfu mewn poblogrwydd, y tro yma gwnaed elw o £170.00. Diolch yn arbennig i Keith a Lynn am baratoi'r cwestiynau, ac i bawb a gyfrannodd at noson hwylus a llwyddiannus iawn.

Bu'r P.C.C. yn cyfarfod i drafod gweithgareddau yn ystod 2012. Bwriedir cael cwis arall ar Mai y 9fed yn yr eglwys fach; gwerthiant elusennol ar Mai 26ain, - yr elusen a benodwyd yw Tŷ Hafan; taith ddirgel flynyddol ym mis Mai a thaith gerdded hanesyddol ym mis Hydref. Mwy o fanylion yn rhifyn nesaf 'Clonc'.

Llongyfarchiadau i un o aelodau'r eglwys sef Gwennan Davies a ddewiswyd yn Frenhines y Sir dros C.Ff.I. Ceredigion. Bydd yn cael ei hanrydeddi yn Rali'r Sir a gynhelir yn y plwyf ym mis Mehefin. Dymunwn flwyddyn lwyddiannus ac hapus iddi. Edrychwn ymlaen i groesaw'r Rali i 'Llechwedd'.

Dymunwn wellhâd buan i bawb sy'n anhwylys a'n cydymdeimlad â'r rhai sydd wedi colli anwyliad.

Dymuniadau Da

Pob hwyl i Mrs Annie Bowen, Arosfa, Drefach sy'n symud i fyw i Heol y Coleg yn Llambled. Dymunwn yn dda iddi a diolchwn am yr holl waith gwirfoddol a wnaeth dros y blynyddoedd o fewn y gymuned.

Brenhines

Llongyfarchiadau gwresog i Gwennan Davies, Llys Deri ar gael ei dewis i fod yn Frenhines C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn 2012 - 2013. Bydd Gwennan yn cael ei choronni yn Rali Llanwenog ar ddydd Sadwrn cyntaf mis Mehefin. Dymuniadau gorau i ti am y flwyddyn sydd i ddod.

Diolch

Dymuna Ieuan, Jane a theulu 'Pwllbylwg' ddatgan ei gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd yn ei colled a'i hiraeth o golli chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl a charedig sef Eiryth Davies. Dymunwn fel teulu ddiolch yn arbennig i'w ffrindiau a'u

chymdogion am ei cwmniath a'u caredigrwydd iddi ar hyd yr amser.

Diolch am y cardiau, galwadau ffôn a galwadau i'r tŷ, y blodau a'r cacennau. Bu'r cyfan yn gysur, ac yn gynhaliath ar adeg mor drist.

Dymuna Nans Davies, Bryndolau, Brynteg ddiolch i bawb am y cardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

Dymuna Daniel Thomas, Ffosffald Uchaf, ddiolch i bawb am y cardiau, ymholiadau, a'r galwadau ffôn dderbyniodd wedi llawdriniaeth yn ddiweddar. Gwerthfawrogi eich consyrn yn fawr.

Dymuna Beryl Lewin, Harlech, Drefach, ddiolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Gwerthfawrogiad.

Dymuna teulu Afallon, Drefach, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd wedi marwolaeth David Meurig, brawd Eifion.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth yr aelodau ynghyd i Eglwys Llanwenog ar gyfer cyfarfod mis Mawrth, a chroesawyd pawb yno gan Irene Jones, yr Is-gadeirydd. Braf oedd gweld y Parchedig Suzie Bale yn bresennol, a rhoddodd hithau gair o groeso ar ran aelodau'r Eglwys.

Gyda thristwch, cydymdeimlwyd â'n Cadeirydd, Dilwen George, wedi iddi golli ei chwaer yn Llandeilo, ac â Eifion Davies, yntau wedi colli ei frawd yn Llanelli.

Cyrhaeddodd Plant Ysgol Llanwenog yn brydlon erbyn 2 o'r gloch i'n diddanu ac i ddathlu Gŵyl Dewi gyda ni. Croesawyd hwy'n gynnes gan Irene Jones, gan ddweud ein bod bob amser yn edrych ymlaen i gael eu cwmni. Dymunodd yn dda i Mr H. Roderick, sydd newydd ei benodi yn Athro â gofal yn yr Ysgol.

Mwynhawyd awr ddifyr yn gwrando ar raglen o eitemau amrywiol gan y plant, yn unawdau a phartion canu, adroddiadau ac eitemau offerynnol, y cyfan yn cael eu cyflwyno â graen.

Diolchwyd yn fawr iddynt i gyd, ac i Brifathrawes a staff yr ysgol am roi o'u hamser gan yr Is-gadeirydd, a dymunodd yn dda iddynt i gyd yn Eisteddfod Gylch yr Urdd trannoeth yn Llambled.

Yn ogystal, diolchwyd yn gynnes i wragedd yr Eglwys am baratoi lluniaeth i'r aelodau ac i blant yr ysgol gan Irene Jones, a diolch i'r Parchedig Suzie Bale am ei geiriau o groeso a'i phresenoldeb.

Mae tymor triplau'r Haf yn cychwyn ar Ebrill 11eg, y daith gyntaf yn mynd i Cenarth, Llandudoch ac Aberteifi. Y bws i



Wedi noson lwyddiannus o godi arian i Ysgol Gynradd Llanwenog yng nghwmni'r dartiwr enwog Darryl Fitton, a oedd wedi ei threfnu gan Christian a Claire Jones. Codwyd £601 o bunnoedd, a chyflwynodd Claire Jones a'i merch Chloë-Chanel y siec i'r Athro a Gofal, Mr H Roberts, yn ddiweddar.

adael y garej yn Llambled am 9.30yb. Enwau i Yvonne 480590.

C.Ff.I. Llanwenog

Ar yr 2il o fawrth, fe aeth aelodau o G.Ff.I Llanwenog i dawns dewis swyddogion, fe fu yn noson lwyddiannus iawn i'r clwb efo Cerys Jones yn cael ei dewis fel morwyn a Gwennan Davies fel frenhines llongyfarchiadau enfawr i'r ddwy, ac edrychwn ymlaen i'ch gweld ar y llwyfan yma'n Llanwenog.

Cafodd pawb noson llawn sbri ar y 5ed yn Eisteddfod dafarn yn nhafarn Cefn Hafod. Sion a Siân oedd ar y 12fed efo sawl cyfrinach yn cael ei datgeli am y parau. Fe ddaeth Erwyd Howells i'n diddannu ar y 19eg yn nhafarn y Llew Du, rwy'n siwr bydd pawb yn cytuno, ar ôl ambell i awr o ddawniso roedd dim eisiau rhagor o ymarfer corff am weddill yr wythnos.

Gan ystyried fod y gwanwyn newydd dechrau, roedd hi fel diwrnod braf o haf yn Nhregaron ar ddydd Sadwrn y 24ain am Ddiwrnod Maes y sir. Eto mi roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn i'r clwb efo sawl unigolyn yn dod yn fuddigol, fe ddaeth y tîm ffensio sef Steffan Jenkins, Gethin Hatcher, a Heilin Thomas yn drydydd. Cafodd y ciwb a cafodd ei greu gan Carys Evans, Meinir Davies a Enfys Hatcher yr ail wobwr, Gwawr Hatcher a Carwyn Davies yn dod yn ail yn cystadleuaeth diogelwch iau, barnu stoc tan 18, Guto Jones yn gyntaf a Daniel Morgans yn pedwerydd, ar tîm sef Guto Jones, Sioned Fflur, Steffan Jenkins a Daniel Morgans hefyd yn 1af. Yn y barnu stoc o dan 26ain fe ddaeth Heulin Thomas yn 2il, ac ar ddiwedd y diwrnod fe ddaeth Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog yn gydradd 3ydd, da iawn i bawb a wnaeth cystadlu a diolch i bawb a wnaeth cyfrannu yn yr wythnosau yn arwain lan i'r gystadleuaeth.

Ar noson braf o wanwyn aeth aelodau o'r clwb i fyny i ysgol

Cwrtnewydd ar nos Lun y 26ain o Fawrth i fwynhau yng nghwmni'n gilydd ac i gael gêmiau o rownderi a pêl-droed yn yr haul.

Ysgol Llanwenog

Cafwyd prynhawn hwylus dros ben ar Fawrth y 1af i Ddathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy gynnal Eisteddfod yn yr ysgol. Bu'r plant yn llefaru, canu, chwarae offerynnau, chwibanu yn ogystal â pharatoi gwaith ysgrifenedig a chelf a chreffft ar gyfer yr Eisteddfod. Y beirniad eleni oedd Mr Geraint Davies, a Gwennan Davies fu wrthi yn beirniadu y gwaith llenyddol.



Enillydd y gadair oedd Lowri Davies a seliodd ei cherdd ar Cathrine Jenkins y gantores enwog. Llwyddodd Gwenog i gipio tarian yr Eisteddfod ar ddiwedd y prynhawn, diolch i Gylch Gwenog am baratoi te blasus i bawb ar ddiwedd y cystadlu.

Llongyfarchiadau mawr i'r sawl a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Celf a Chreffft Eisteddfod yr Urdd eleni yn enwedig i Chloe Marie Jones a Lowri Davies a gafodd wobrau cyntaf am eu gwaith Lluniadu a Chreadigol, mi fydd eu gwaith yn mynd ymlaen i gystadlu ar lefel Cymru. Llwyddodd Hafwen Davies, Ben Lewis a Jamie Jones hefyd i gipio yr ail ar drydedd wobwr am waith lluniadu, creadigol a

...parhad

gwinio, da iawn chi!

Bu'r plant wrthi yn brysur yn cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Llanbed, llongyfarchiadau i Florean Van Ostade a wnaeth gipio'r wobwr gyntaf am lefaru dan 8 i ddysgwyr, y parti unsain a ddaeth yn ail ac i'r parti llefaru am wneud yn dda. Llwyddodd Florean i gipio'r drydedd wobwr yn Eisteddfod Rhanbarth y Sir ym Mhonrhydfendigaid, tipyn o gamp yn wir!

Braf oedd i blant yr ysgol gael y cyfle i berfformio yn Eglwys Llanwenog trwy wahoddiad caredig Cymdeithas Hŷn Llanwenog. Cafwyd nifer o eitemau cerddorol, llafar ac offerynnol ac yna te blasus dros ben! Diolch am y gwahoddiad a'r croeso.

Aeth plant Cyfnod Allweddol 2 i gystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad y cylch, llongyfarchiadau i bawb am redeg ac am wneud eu gorau glas!

Hoffwn longyfarch Miss Mair Jenkins ar dderbyn swydd gan Mudiad Meithrin Cymru. Bydd yn cychwyn ar ei dylestwyddau ar ôl gwyliau'r Pasg. Felly, dymunwn yn dda iawn iddi yn ei swydd newydd a theimlwn yn unfrydol bod cylchoedd meithrin Ceredigion oll yn ffodus iawn o gael rhywun o'r safon yma'n eu cefnogi.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mrs Catrin Evans am fod gyda ni fel athrawes am flwyddyn bellach ac am iddi rannu ei doniau lu gyda ni - mae'r plant yn sicr wedi elwa'n fawr iawn o'i chael fel athrawes yn yr Ysgol hon. Dymunwn yn dda iddi tra'i bod ar gyfnod mamolaeth ac edrychwn ymlaen i'w chroesawi yn ôl atom mor fuan â phosibl.

Llanwnnen

Seren y Sgrîn

Braf oedd gweld Aled Wyn Thomas, 1 Sycamore Terrace yn perfformio fel rhan o Gôr Only Boys Aloud ar y rhaglen deledu "Songs of Praise" yn ystod y mis. Llongyfarchiadau hefyd

ar ymddangos fel aelod o'r Côr yn rownd gyntaf y gystadleuaeth boblogaidd "Britain's Got Talent" a ddarlledwyd ar y teledu y penwythnos diwethaf ac am lwyddo i fodloni Simon Cowell a'i dîm o feirniaid. Pob lwc yn rownd nesaf y gystadleuaeth.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwys â John, Glynteg a'r teulu ar golli gwraig, mam a mamgu, sef Mrs Glenda Evans yn ddiweddar.

Sarn Helen

Cystadlodd Caitlin Page yng nghystadleuaeth Ras Pencampwriaeth Trac Cymru 1500 medr dan do yn NIAC, Caerdydd, a chipiodd y fedal efydd wrth groesi'r llinell derfyn mewn 5 munud a 10 eiliad. Yr wythnos ganlynol, cystadlodd Ffion Quan a Caitlin Page ym mhencampwriaeth traws gwlad yn Sain Ffagan, Caerdydd, a llwyddodd Ffion i orffen yn 6ed mewn 19 munud a 26 eiliad, a Caitlin Page i orffen yn 8fed 10 munud a 59 eiliad. Aberhonddu oedd y pedwaredd gyfres traws gwlad Gwent, Grace Page yn 16eg yn y ras nofis dan 13, Rhiannon Jevan yn 26ain, dan 15 Caitlin Page 4ydd, Ffion Quan 8fed, ac yn y ras i fenywod hŷn fe ddaeth Elen Page yn 112fed, ac yn y ras i ddynion hŷn ddaeth Steffan Jones yn 187fed. Y pumed gyfres o draws gwlad Gwent, ym Mriste, a Grace Page yn groffen yn 6ed, dan 15 Sed Caitlin Page a 9fed Ffion Quan ac Elen Page yn 113 yn ras menywod hŷn. Ar ddiwedd y gystadleuaeth Gwent ddaeth Caitlin Page yn 3ydd gyda 164 o bwyntiau, Ffion Quan 5ed 154 o bwyntiau, ac y ddwy yn derbyn medalau traws gwlad Gwent, ac gorffen yn pedwerydd mewn tim, ac gorfennodd Grace Page yn 10fed gyda 265 o bwyntiau yn y ras nofis.

Bu Caitlin Page a Ffion Quan yn Birmingham yn ddiweddar yn cystadlu o dan Gorllewin Cymru yn yr 'UKA McCain UK and Inter Counties Cross Challenge' lle roedd y teledu SKY yn ei ffilmio yn fyw, roedd 279 o rhedwyr yn ras merched dan 15 ac gorfennodd Caitlin Page yn 126 mewn 17 munud 47 eiliad, a Ffion Quan yn 160 mewn 18 munud 06 eiliad.

Eirlaw a gwynt oedd y tywyd ar ddechrau mis Ionawr i'r team persuit yn Crymych, pedwar tim allan gan y clwb, a tim A yn ennill mewn 3 awr 30 munud, Michael Davies, Glyn Price, Carwyn Thomas, Dylan Lewis, Daniel Hooper, tim B oedd yn 3ydd mewn 3 awr 36 munud, Eric Rees, Marc Dunscombe, Llewelyn Lloyd, Gethin Jones, a Teifion Davies, tim C 9fed mewn 4 awr 05 eiliad, Richard Marks, Huw Price, Simon Hall, Dylan Davies a Aneurin James. Tim D oedd y merched ac yn gorffen yn 20fed, mewn 4 awr 38 munud, Caryl Davies, Dawn Kenwright, Helen Willoughby, Elen Page a Dee Jolly. Lyn Rees enilloedd y wbor sy'n rhoi cyfle i glybiau rhedeg gorllewin Cymru enwebu aelod gweithgar o'r clwb na cheir cydnabyddiaeth teilwng am ei waith diflino.

Hanner marathon gors Caron Tregaron, Glyn Price yn ail and yn ennill y category 40 mewn 1 awr 20 munud. 4ydd a 2il d40, Michael Davies 1 hour 21 munud, 9 Daniel Hooper 1 awr 26 munud, 18 a 1af d55 Richard Marks 1 awr 30 munud 21 eiliad, 19 Steve Holmes 1 awr 30 munuds 59 eiliad, 21 Eric Rees 1 awr 33 munud 03 eiliad, 22 Huw Price 1 awr 33 munud 14 eiliad, 25 a 2il d55 Tony Hall 1 awr 34 munud, 27 Simon Hall 1 awr 35 munud, 37 a 3ydd d55 Murry Kisby 1 awr 38 munud, 56 a 2il menwyd agored Caryl Davies 1 awr 44 munud, 67 Aneurin James, 1 awr 49 munud, 73 Ormond Williams 1 awr 52 munud a 81 Dee Jolly 1 awr 57 munud. Caryl Davies a Michael Davies yn ddau yn ennill y wobwr lleol.

10K ras Gwyl Ddewi Llanddewi Brefi a Glyn Price yn gorffen yn yr ail safle, 36 munud 05 eiliad, 3ydd Michael Davies 36 munud 49 eiliad, 4ydd Dylan Lewis 38 munud 52 eiliad, 7fed Eric Rees 40 munud 50 eiliad, 8fed Huw Price 42 munud 04 eiliad, 14 Steffan Jones 43munud 58 eiliad, 24 Caryl Davies 47 munud 28 eiliad, 26 Aneurin James 48 munud 54 eiliad, a 37 Alan Watts awr 41 munud 56 eiliad. Naomi Davies enilloedd ras merched mewn 24 munud 24 eiliad, ac ei chwaer Lowri Davies yn drydydd.

Enilloedd Dawn Kenwright y categori menywod 55 yn ras 10 filltir llwybr arfordir Llanelli ac yn saithfed fenyw adre.

Steffan Jones yn gorffen 7fed yn ras 5 milltir Rhaeadr Gwy 33 munud 56 eiliad, a Caryl Davies yn 16ed 37 munud 08 eiliad ac yn rhedeg ei amser gorau. Hefyd ar yr diwrnod oedd ras 20 o filltiroedd o amgylch dyffryn Elan, Glyn Price yn 8fed, 2 awr 10 munud, ac yn gyntaf d40, 16 Michael Davies 2 awr 13 munud, 25 Carwyn Thomas 2 awr 17 munud, 49 Steve Holmes 2 awr 26 munud, 55 Huw Price 2 awr 28 munud, 91 Murry Kisbee 2 awr 39 munud, 96 Simon Hall 2 awr 39 munud, 199 David Thomas 2 awr 59 munud, 207 Aneurin James 3awr.

Ras nesaf Sarn Helen yw Teifi 10 ar Ebrill 8fed am 12yb o glwb rygbi Llanbed.



Taith gerdded 'Walk For Life' Llanybydder a Llanbed yng Nghwmmann ar y 25ain Mawrth yn codi arian tuag at Sefydliad Aren Cymru o dan arweiniad Philip Lodwick.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llanbed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bydd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn,
Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llanbed

01570 422895

Llanbedr Pont Steffan



Shiloh a Soar

Mr Lyn Richards o Faesglas Caio oedd y gŵr gwádd yn y Gymdeithas Ddiwylliadol ar y nos Wener Chwefror 24. Brodor o bentref Myddfai yw Lyn, yn un o bedwar o blant a'i rieni oedd yn cadw y swyddfa bost yn y pentref am flynyddoedd. Er ei fod wedi gadael bro ei febyd ers tri deg pump o flynyddoedd bellach, roedd yr ardal yn golygu llawer iddo. Trwy gyfrwng sleidiau, cafwyd ganddo hanes hynod ddiddorol o ardaloedd Llandeusant, Myddfai a'r holl chwedlau sydd yn gysylltiedig a'r broydd yma. Gwyr pawb ohonom am y berthynas garwrol rhwng Rhiwallon Blaensawdde Llandeusant a'r ferch brydferth yn Llyn y Fan. Yn ôl Lyn, nid yw'r pentref wedi newid llawer o ran tai ac adeiladau ond mae newid sylweddol wedi bod ymysg y bobl sydd yn byw bellach yn y pentref. Gwyddom fod Tywysog Cymru wedi prynu ffarm Llwynwormood ar gyrion y pentref ac oherwydd hyn, mae Myddfai ar y map rhyngwladol ac yn denu nifer o ymwelwyr. Cafwyd arian o'r Loteri i godi neuadd hardd sydd yn cael ei defnyddio yn helaeth gan y gymuned leol.

Soniodd yn ei araith am y tri meddyg o'r drydedd ganrif ar ddeg sef Cadwgan, Gruffydd ac Eynon a'i dylanwad ar iechyd pobl yn ystod y cyfnod yma yn arbennig. Roedd y tri yn casglu llysiau o'r caeau tu fewn eu milltir sgwar ac yn paratoi moddion a gwahanol feddyginiaethau ar gyfer y cleifion ac yn wir, mi ddaeth resetau Meddygon Myddfai yn enwog dros y byd ac mae'n siwr bod rhai yn cael eu defnyddio o hyd y dyddiau yma. Aneurin Davies oedd llywydd y noson a Mair Lewis gafodd y fraint o ddiolch i Lyn am noson gartrefol ac am lwyddo i ddod a hanes y gorffennol mor fyw a diddorol i bawb a oedd yn bresennol. Uchafbwynt teilwng i weithgareddau'r Gymdeithas am y flwyddyn.

Roedd Festri Shiloh yn llawn ar y nos Wener Mawrth 2 ar gyfer dathlu Gwyl Ddewi. Twynog Davies gafodd y fraint o liwio'r noson ac mi gyfeiriodd ar y dechrau am ein llawenydd fod y Llywydd Gwyneth Morgan yn bresennol ar ôl ei salwch. Yn dilyn cais y llywydd, gwahoddwyd cymdeithas y Capel Cwrt-y-Cadno sef bro mebyd Gwyneth atom ac mi wnaeth hyn arwain at gymdeithasu hyfryd rhwng y ddwy gymdeithas. Gwyneth hefyd oedd wedi rhoi y te Cymreig ac mi ddiolchwyd iddi am y wledd ac am ei charedigrwydd a'i haelioni.

Y gŵr gwadd oedd Sulwyn Thomas ac mi gafwyd ganddo mewn araith egniol ac effeithol y difrifol a'r doniol. Cyfeiriodd ar y cychwyn am ei wasanaeth i Radio Glangwili dros ddeugain mlynedd ac fel yr oedd iaith y cleifion wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd. Tua ugain y cant sydd bellach yn siarad Cymraeg i gymharu ag wythdeg y cant pan cychwynodd y gwasanaeth. Ers 1975, mae Sulwyn wedi bod yn gysylltiedig gyda

Llais Llafar Cymru sydd wrthi yn paratoi deunydd ar ffurf braille, casettiau a C.D's i'r deillion a hynny dros Gymru gyfan. Penderfynodd Eglwys Shiloh gyfrannu £100 tuag at yr achos teilwng yma. Soniodd am ei waith gyda Standin Sulwyn ac am un achlysur ddoniol arbennig lle cafodd yr Eisteddfod Genedlaethol wahoddiad i Chicago. Bu dadlau ffyrnig a nifer fawr yn mynegi barn gadarn yn nerbyn y syniad. Ychydig oedd wedi sylweddoli fod y rhaglen wedi mynd allan ar ddiwrnod Ffwl Ebrill!!

Fel arwydd o'i werthfawrogiad, cyflwynodd Ieuan Williams Abermangoed ar ran Cymdeithas Cwrt y Cadno tusw o flodau i Gwyneth ac mi atebodd mewn ffordd gadarnhaol iawn drwy ddiolch i Sulwyn ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at weithgareddau'r gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Ond yr oedd mwy i ddod. Cafwyd datganiad di gyfeiliant gan Ieuan o hén benillion y Plygain. Rhyfeddwyd pawb gan ei gôf ac ansawdd rhyfeddol ei lais gan gofio ei fod wedi dathlu ei benblwydd yn 92 oed.

Roedd hon yn noson a erys yn hir yn y côf ac yn ddiweddglo penigamp i raglen y Gymdeithas

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Ar 29ain o Chwefror cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn Cartref Hafan Deg gyda Mr. Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn: Dynion – 1af. Ray Jenkins, Llanybydder, 2il. Richard Stevens, Heol y Goedwig, Llambod, Cydradd 3ydd. Mai William, Tregaron a Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambod, Merched – 1af. Nancy Davies, Heol y Wig, Llambod, 2il. Dilwen Roderick, Stryd y Bont, Llambod, 3ydd. Morfydd Slaymaker, Llambod, Carden Miniature – Dynion: Ceinwen Jones, Llambod, Merched: Gwenda Thomas, Llambod. Bwrw Allan – Enillwyr: Dai Davies, Pensinrig, Cellan a Mai Williams, Tregaron, Ail: Peggi Davies, Brohenllys a Ifan John Jones, Brohenllys, Felinfach.

Enillwyr 14eg o Fawrth: Dynion – 1af. Mary Davies, Cwmsychpant, Cydradd 2il. Peggi Davies, Brohenllys, Felinfach a Gwen Davies, Llanwnnen. Merched: Cydradd 1af. Dilwen Roderick, Stryd y Bont, Llambod a Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach, 2il. Nana Davies, Stryd Newydd, Llambod. Carden Miniature – Dynion: Peyter Jones, Llambod, Merched: June Mason, Rhes Harford, Llambod. Bwrw Allan – Enillwyr: June Mason a Edward Lockyer, Hafan Deg, 2il: Gwen Davies a Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach. Bydd y Gyrfa oedd Chwist mis Ebrill ar 11eg a'r 25ain. Croeso cynnes i bawb.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Steffan Jenkins, Tyllwyd ar basio ei brawf gyrru yn ystod y mis. Dymuniadau gorau i ti a chymer ofal.

Dathlu

Dathlodd Sian Jenkins, Tyllwyd pen-blwydd arbennig yn ystod y mis. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

Merched y Wawr

Ar Fawrth 12fed aeth y Gangen i'r Talardd yn Llanllwni i ddathlu Gŵyl Dewi.

Croesawodd Morfudd Slaymaker bawb i'r noson a llongyfarchodd Mary Davies oedd yn dathlu penblwydd arbennig.

Yr oedd yn dda gweld Gwyneth Morgan yn ôl yn dilyn cyfnod o salwch ac hefyd Arwena Griffiths oedd wedi cael llawdriniaeth ar ei glin.

Ar ôl cinio hyfryd cyflwynodd Dilwen Roderick ein gwetai Mrs Ann Thorne o Lanllwni a siaradodd am ardal Glyn Nedd lle'i ganed ac aeth a ni ar daith i fyny'r cwm mor bell ag Ystradfellte gan ddisgrifio pentrefi a'r cymeriadau oedd yno'r cyfnod hynny.

Diolchodd Noeleen Davies i

Ann am noson ddiddorol dros ben. Diolchodd hefyd i staff y Talardd am y lluniaeth ardderchog.

Enillwyd y raffl fisol gan Nancy Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 16eg yn Festri Shiloh am 7-30.

Awdur Llwyddiannus

Llongyfarchiadau cynnes i Beryl Davies un o aelodau Noddfa ar ei llwyddiant pellach yn y maes Eisteddfodol. Cipiodd Beryl y wobr gyntaf am gyfansoddi geiriau ar gyfer Carol y Plygain yn Eisteddfod Bancffosfelen yn ddiweddar gan dderbyn canmoliaeth uchel iawn gan y Prifardd Ddoctor Tudur Hallam, beirniad y gystadleuaeth. Yn ail roedd y Parchedig Beti Wyn James, Caerfyrddin. Pob dymuniad da i Beryl i'r dyfodol.

Cymdeithas Hanes

Eric Williams oedd yn y gadair yng nghyfarfod mis Mawrth, a chroesawodd nifer dda o aelodau i'r Hen Neuadd i wrando ar ddarlith ar John Thomas, y Ffotograffydd (1838-1905). Iwan Meical Jones oedd y siaradwr gwadd, - cyn ymddeol, ef oedd Pennaeth is-adran gofal casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a chyhoeddodd lyfr ar hanes a gwaith John Thomas yn 2008 o dan y teitl "Yr Hen Ffordd Gymreig o Fyw". Traddodwyd y ddarlith hon yn Gymraeg, gyda Sian Jones yn cyfieithu ar y pryd.

Ganwyd John Thomas yn Glanrhyd, Cellan, ond ym Mhlwyf Llanfair Clydogau, gan fod Glanrhyd ochr arall i'r Teifi. Bu'n gweithio mewn siop dilledydd (draper) yn Llambod, ond gadawodd ei gartref pan yn 15 oed i fynd i weithio yn Lerpwl, ac yn yr un maes y bu'n gweithio yno am rai blynyddoedd.

Penderfynnodd newid gyrfa, a chyflogwyd ef fel trafaeliwr i werthu lluniau pobol enwog y byd; hyn ar yr adeg roedd ffotograffau yn dod o fewn cyrraedd y pobol gyffredin. Ar un o'i deithiau i ogledd Cymru, holodd rywun lle'r oedd ffotograffau enwogion Cymru? Hyn a roes y syniad i John Thomas i sedfydlu busnes ei hun, yn teithio o amgylch Cymru a thu hwnt i dynnu lluniau, nid yn unig enwogion, ond hefyd y werin bobol, ac yn eu dangos fel yr oeddent. Tynnai hefyd olygfeydd o wahanol drefi, - tawel a di-gynnwrf ar ddiwrnod cyffredin, ond yn llawn i'r ymylon ar ddiwrnod marchnad a ffair. Teithiodd eilwaith a rhagor i'r llefydd hyn dros y blynyddoedd gan ddangos y newid wrth i'r trefi ddatblygu, ond yn Lerpwl y bu ei gartref hyd ddiwedd ei oes.

Gwerthwyd ei gasgliad lluniau a negyddon i Syr O.M. Edwards, ac ymhen amser cyflwynwyd y cyfan i'r Llyfrgell Genedlaethol, yn gofnod

Llanbedr Pont Steffan

barhaol o fywyd fel ag yr oedd yn ystod oes Fictoria.

Diolchwyd yn gynnes i Iwan Meical Jones gan yr is-gadeirydd, a braf oedd clywed yr aelodau yn ymateb i rai o'r lluniau lleol a ddangoswyd, - yng Nghellan a Llambled, - gan ceisio'u lleoli a'u dyddio.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Ebrill 17eg, 7.30 yn yr Hen Neuadd, pan fydd yr Athro David Thorne yn siarad ar Enwau Caeau yn ardal Llambled. Bwriedir lawnsio prosiect i gofnodi enwau lleol. Croeso cynnes i bawb.

Noddfa

Braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i Noddfa ar fore Sul y Mamau i oedfa arbennig wedi ei llunio gan Janet yng ngofal yr Ysgol Sul. Mewn pennill a chân

bu'r plant a'r bobl ifanc yn diolch i Dduw am gariad Mam a'r Mamau wedyn yn ymuno gyda nhw i ddathlu gwyth y Gwanwyn â gorfoledd y Pasg. Bu Gwenllian, Siôn, Dafydd, Tomos ac Osian Jones yn cyhoeddi'r emynau, Osian Roberts a Rhys Tom yn adrodd a'r llefarwyr oedd Hannah, Tomos Rhys a Teon. Gweddiwyd gan Siân Jones a chafwyd cyflwyniad o waith Abiah Roderick "Prynhawn y Grog" gan Alwena, Iona, Llinos, Helen, Lowri Elen a Sian Roberts-Jones. Mwynhawyd cyflwyniadau gan grwpiau llefaru a chanu amrywiol heb anghofio cyfraniad gwerthfawr y plant lleiaf a phob un ohonynt yn rhoi o'u gorau ac yn llwyddo i swyno'r gynulleidfa yn ôl eu harfer. Pleser hefyd oedd gwrandao ar Lisa, Elan a Beca yn canu geiriau o waith Beryl Davies un o'n haelodau ar emyn don Mair Long, gynt o Noddfa ac ar ddatganiad Lowri Elen o'r "Trydydd Dydd" gan Robat Arwyn. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Llinos, Alwena a Janet.

Talodd ein Gweinidog y Parch Jill Tomos deyrnged uchel i bawb am eu gwaith graenus a deallus a'r cyfan yn dangos paratoi trylwyr. Soniodd hefyd pa mor bwysig yw cyfraniad y plant a'r bobl ifanc i fywyd yr eglwys a diolchodd i'r rhieni am eu cefnogaeth ac i bawb oedd wedi cynorthwyo mewn unrhyw ffordd gyda'r gwasanaeth.

Roedd y plant wedi paratoi cardiau lliwgar ar gyfer eu Mamau yn yr Ysgol Sul dan gyfarwyddyd Llinos i'w cyflwyno iddynt ar y Sul arbennig hwn.

Tystiau pawb mai da oedd cael bod yn bresennol mewn oedfa fendigedig gan ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r plant a'r bobl ifanc am eu cyfraniadau clodwiw.

Bydd pawb yn cael seibiant haeddiannol nawr am ychydig wythnosau.



Trefnodd Adran ac Aelwyd yr Urdd Llambled Gymanfa Garolau beth amser yn ol a chodwyd y swm o £500. Cyflwynodd Meirion Thomas a Tomos Jones siec o £300 i Sian Roberts Jones o Ymchwil Motor Neurone, a bydd £200 at waith yr Urdd yn lleol. Hefyd yn y llun mae Eirlys Rees, Trysorydd.



Nigel a Sian Davies, Gwili Jones Llambled, yn cyflwyno siec o £404 i Mansel Charles, cynrychioliydd RABI (Royal Agricultural Benevolent Institution) ac i Ficer Eileen, sy'n gweithio fel Ymgynghorydd Cefn Gwlad, yn dilyn raffl a gynhaliwyd ar Ddiwrnod Agored Gwili Jones yn Nantyci, Caerfyrddin ar Chwefror 29ain. Diolch i bawb am eu haelioni.

Llwyddiant Aelwyd yr Urdd

Braf yw cyhoeddi bod nifer o aelodau'r Urdd wedi profi llwyddiant yn Eisteddfod Uwchradd Rhanbarth Ceredigion a gynhaliwyd ym Mhonrhydfendigaid ar 23 Mawrth. Dyfarnwyd yr aelodau i gyd yn gyntaf, ail neu yn drydydd ymhob cystadleuaeth- tipyn o gamp. Dyma'r canlyniadau: Unawd Bechgyn Bl 7-9 1af Meirion Sion Thomas, Llefaru 2ail Meirion Sion Thomas, Cyflwyno Alaw Werin 2ail Meirion Sion Thomas, Unawd Cerdd Dant 3ydd Meirion Sion Thomas, Deuawd 3ydd Meirion Sion Thomas a Natalie Plant, Unawd Merched 3ydd Lleucu Ifans, Unawd Sioe Gerdd Bl 10 a than 19 1af Lowri Elen, Llefaru 3ydd Lowri Elen, Unawd Bechgyn 3ydd Dewi Uridge, Monolog 2ail Sian Elin, Cyflwyno Alaw Werin 2ail Gwawr Hatcher, Grwp Llefaru Bl 9 ac iau 1af Aelwyd Llambled.

Llongyfarchiadau calonnog i'r aelodau i gyd a phob lwc i Meirion Sion, Lowri Elen a'r grŵp llefaru dan hyfforddiant Elin Williams a hefyd y parti unsain dan 12 sydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri ar ddechrau Mehefin. Hefyd dymunwn yn dda i

Gwenann Jones enillydd yr Unawd 19-25 yn Eisteddfod yr Aelwydydd. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ein hymweliad â'r Gogledd.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd

Cynhaliwyd gwasanaeth Byd-Eang y Chwiorydd yng Nghaersalem Parcyrrhos a braf oedd gweld cynrychiolaeth o'r holl eglwysi yn bresennol. Croesawyd pawb yn gynnes gan Avril Williams, cadeirydd y pwyllgor lleol ac yn arbennig ein siaradwraig gwadd y Parchedig Jill Tomos. Paratowyd yr oedfa eleni gan Chwiorydd Cristnogol Maleisia ar y thema "Boed i Gyfiawnder Lwyddo", sy'n adleisio consyrn y dyddiau presennol fod gweithredoedd anghyfiawn yn bodoli yno o hyd, hyd yn oed heddiw, yn enwedig ymhlith gwragedd sy'n dal i gael eu anffafrio ym myd addysg a gwaith. Cymerwyd rhan gan chwiorydd Bethel Parcyrrhos, Bethel Silian, Brondeifi, Carmel, Caersalem

Ceris Jones
yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, steilo a lliwio,
ewilo a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.

Prisiau rhesymol a
Diwrnod gostyngiad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613

Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

W.D. Lewis
a'l Fab

Masnachwyr / Amacnyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

LING DI LONG

Bwyty Tsieinaidd a Chludfwyd
13 Stryd y Bont, Llambled
01570 422009



Ar agor:
12:00-14:30 a 17:00-23:00

Cynigion arbennig bwffe
ac amser cinio

Darllenwch ein bwydlen
a'n cynigion arbennig ar Facebook

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHIWR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Llanbedr Pont Steffan

Parcyrhos, Noddfa, Sant Iago, Sant Pedr, Sant Tomos, Shiloh a Soar. Cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr iawn gan anerchiad diddorol a phwrpasol y Parchedig Jill Tomos yn seiliedig ar y thema. Diolchodd Avril yn gynnes iddi am ei chyfraniad gwerthfawr, i swyddogion ac aelodau Caersalem am eu croeso a'u paratodau, i Janet am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i bawb oedd wedi cymryd rhan. Casglwyd dros £100.

Adran yr Urdd

Daeth llwyddiant eleni eto i Adran yr Urdd yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion a gynhaliwyd ym Mhontrhydfendigaid ar 17 Mawrth.

Er bod y merched yn ifanc iawn o ran oedran, y mwyafrif ohonynt ond ym mlynnyddoedd 3 a 4 cipiodd y parti unsain dan 12 oed y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth safonol. Derbyniodd y parti ganmoliaeth uchel iawn gan Meinir Richards y beirniad am ddatganiad hynod gerddorol a sensitif.

Hefyd dyfarnwyd y parti llefaru yn drydydd.

Mae dyled yr aelodau yn fawr i Rhiannon ac Elin am eu hyfforddi, i Lois am gyfeilio, i Janet am ei chymorth hithau a hefyd i Llinos am fod yn gyswllt rhwng aelodau'r Adran a'u rhieni. Llongyfarchiadau i'r merched ac ymlaen yn awr i Eisteddfod Genedlaethol Eryri ar ddechrau Mehefin. Pob lwc.

Sefydliad Prydeinig y Galon

Ardal Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan

Nos Wener 2il o Fawrth cawsom noson Cawl a Chân yn Neuadd Fwyta Lloyd Thomas, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Cafodd y noson ei noddi gan ein Llywydd Mr Selwyn Walters.

'Roedd yn noswaith llwyddiannus iawn. Gwnaethom elw o dros £2000 o bunnoedd. Bydd yr arian hyn yn mynd at apêl BHF Nyrs Calon Ceredigion.

Yr Arweinydd oedd Ifan Gruffydd, Tregaron, yr artistiaid oedd Côr Clychau'r Fedwen dan arweiniad Canon Aled Williams a'r delynores Georgina Cornock Evans.

Talwyd y diolchiadau gan y Cadeirydd Aneurin Jones. Diolchodd i bawb am gefnogi ac yn arbenning i Selwyn Walters am ei haelioni.

Enillwyr y raffl oedd Paula Carter, Arwyn Davies, Graham Evans, Helena Gregson, Jane Dudley a Brinley Mason.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Gerwyn a Mary Jones, Landre ar ddathlu eu Priodas Aur ar ddiwedd mis Mawrth. Iechyd da am flynyddoedd lawer eto.

Pencarreg

SBWRIEL? PA SBWRIEL?

I ble'r aeth e i gyd? Wel weda i wrtho chi nawr. Rhyw ddau neu dri diwrnod ar ôl i mi yrru ar y ffordd rhwng Cwmann a Llanybydder gan deimlo mor ddiflas wrth weld yr holl annibendod bob ochr i'r hewl, dyma fi'n gwneud y siwrne eto. Diwrnod diflas, tywyll, niwlog a'r glaw yn diferu, edrychais mewn syndod a rhyfeddu a'm ceg yn ledagored wrth weld mor gymen oedd y cloddiau ar bob llaw. Dim un tin pop, dim potel blastig wedi gwasgu'n blet yn y baw, dim papur siocled sgleiniog yn y gratin, dim cwde fel rhubannau gwrach ynghlwm wrth y brgiau. Roeddwn yn dechrau meddwl fy mod yn breuddwydio'r holl beth nes i mi weld yr esboniad 'rownd y tro nesaf! Na nid tylwythen deg gyda'i ffon hudlath oedd yno ond dyn o'r cownsil yn ei wasgod felen lachar gyda ffon a bachyn ar ei blaen mewn un llaw a chwdyn du yn ei law arall yn llawn mochindra. Roedd yn ddiwyd yn clirio'r holl sbwriel ar hyd y ffordd, yn mentro ei fywyd ar yr hewl droellog, gul yn y glaw i lanhau ar ein holau ni. Cywilydd yr holl beth! Diwrnod neu ddau wedyn ac 'roedd yna botel fach fan hyn, tin pop fan draw ac ambell i focs dal sglodion yn dechrau addurno'r ffordd eto! Mmmm! Cwynion i gyd at Lynda Dolgwm. Bydda i yn y sied ŵyna yn gwneud tē i'r bois!

Bysus Bach y Wlad

Yn dilyn y brotest wrth arosfan y bws ym Mhencarreg i achub yr X40, daeth Iola Wyn o Radio Cymru i holi Vera Edwards, Ruth Jones, Hannilia Court a Lynda Dolgwm Uchaf ynglŷn â'r mater. Gan fod y siop, y dafarn a'r ysgol fach wedi hen gau rhaid oedd cwrdd yng nghartref Vera. Dim ond drws yr Egwys sydd ar agor i bawb yma bellach. 'Sneb yn 'nabod eu gilydd, ma' pawb fel dieithriaid yn eu plwyf eu hunain.

Soniodd Vera a Ruth fel maent mor ddibynol ar y bws i gynnal anghenion bywyd beinyddiol – siopa am fwyd, dillad, gweld y meddyg, casglu pensiwn ac yn y blaen. Dywedodd Ruth ei bod wedi byw ers dros hanner canrif yn y pentref ac wedi defnyddio'r bws drwy ei hoes ac mae'n hanfodol cadw'r bws i nifer o bobl yn y pentref sydd mor ddibynol arno heddiw. Soniodd Hannilia sut mae'n defnyddio'r bws deirgwaith yr wythnos yn reolaidd o Llanybydder i Bencarreg i ymweld â modryb Vera, dod â negeseuon a meddygyiaeth o'r fferyllydd yn Llanybydder gan nad yw iechyd ei modryb fel ag yr oedd. Trwy ddefnyddio'r bws mae Hannilia yn medru ymestyn ei charedigrwydd tuag at ei modryb trwy gynnal cwmniath a gofal, sgwrs fach i dorri'r dydd. Soniais sut oeddwn i newydd ymddeol ac yn edrych ymlaen at ddefnyddio'r 'bws pass' ond heb fws, beth yw'r pwynt? Yn ogystal â defnyddio'r bws i fynd i'r dre' i 'nôl anghenion bob dydd roedd yn holl bwysig i leihau'r teimlad o fod yn ynysig ac yn gaeth rhwng pedair wal, mae unigrwydd yn hunllef i unrhyw berson. Roedd y bws yn cynnig cyfle i gwrdd â ffrind, cael sgwrs dros paned o dê, cinio allan, dy'n ni ddim yn gofyn am y BYD fan hyn, dim ond bach o joio byw! Siopa, wel ie, rhaid yw mynd i Lambed i gael brws gwallt newydd, tegyll, pilyn newydd, beth bynnag yw'r angen rwy'n siwr fod pob siopwr yn falch o'n gweld ni yno yn gwario ein ceiniogau prin, mae'r ping ar y til siwr o fod yn felys i'w glust gan ystyried fod y trethi llym yn ddigon i dagu unrhyw fusnes. Roedd Ruth yn dweud ei bod yn hoffi mynd i Aberaeron am dro ar y bws yn yr Haf i fwynhau'r awel iach ar lan y môr, iachusol iawn, hefyd dyna un o'r trefi agosaf lle mae'n bosibl iddi brynu pâ o esgidiau

newydd gan fod pob siop esgidiau heblaw am un wedi cau yn Llambled. Rhaid cefnogi'n lleol ond mae'n braf cael dewis weithiau. Mae rhywbeth neis ambyti prynu pâ o sandalau mewn siop ar lan y môr yn yr Haf. Mae pawb mewn cymdeithas yn ddibynol ar eu gilydd mewn rhyw fodd ac mi roedd yr X40 yn gwneud ei ran. Pwy wnaeth y penderfyniad o ddileu yn gyfangwbl y gorten byw yma? Sa i'n gwbod, falle rhyw foi mewn swyddfa grand yn yfed ei goffi a chwarae a'i gyfrifiadur drwy'r dydd gael gweld sut allith e gyfiawnhau ei FONWS nesaf! Mwy na thebyg dyw e erioed wedi bod yn ddibynol ar fws yn ei fywyd a bydd e'n mynd fel llycheten trwy bentrefi dibwys fel Pencarreg yn ei 4X4, llond yr hewl, heibio'r arosfan bws X40, heb sylwi o gwbl ar Ruth sy'n helpu Vera sy'n straffaglu tu ôl i'w 'zimmer frame'! 'Sefwch nôl bobl bach, rwy ar y ffordd i gyfarfod holl bwysig arall. Rhaid safio cash, ma ise cwch ar y cwlin a falle os whara i'n gardie yn iawn, ga i yn eirddo'n FARCHOG! Yipiiii! Amfonwch eich cwynion i gyd i Lynda Dolgwm. Mae'n 'sgwydde i'n ddigon llydan. 'Na beth 'ma bywyd yn 'neud i chi! Esgusodwch fi os wyf wedi tromgwyddo ond nid wyf yn meddu ar aeluogrwydd ond rwy'n ymdrechu i werthfawrogi'r pethau bychain mewn bywyd o fewn fy milltir sgwâr. Mae'r diolch am hyn i fy rhieni a'm athro celf yn Ysgol Uwchradd Tregaron sef Ogwyn Davies, a wnaeth i mi deimlo bod gwerth yn fy mywyd trwy ganmol yr ychydig ddawn oedd gennyf yn y pwnc ac fy ysgogi i ddyfalbarhau gyda'm addysg.

Dymuniadau Gorau

Yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus dymunwn wellhad llwyr a buan i Nia Evans, Berllan Deg, Pencarreg. Carai Nia ddiolch am

bob galwad ffôn, y cardiau, y blodau ac i bawb a fu môr garedig mewn gwahanol ffyrdd tuag ati hi a'i theulu yn ystod ei salwch a'i gwellhad. Gwella gloi, Nia fach.

Twrnamaint Rygbi Cyffwrdd

Hoffwn i dynnu eich sylw at y digwyddiad rwy'n trefnu ym mis Mai - twrnamaint rygbi cyffwrdd, Gorllewin Gwylt.

Rwy'n byw ym Mhencarreg nawr ond dod o Gaerdydd yn wreiddiol lle mae gêm rygbi cyffwrdd yn boblogaidd iawn. Bydd y twrnamaint newydd yn digwydd ar y Sed a bed o Fai sef penwythnos gŵyl banc.

Ar ddydd Sadwrn fe fydd cystadleuaeth teulu ac ar ddydd Sul fe fydd cystadleuaeth ar gyfer oedolion. Mae'r holl beth yn digwydd yn Llandysul ond rwy'n gobeithio denu timau a'r draws gorllewin Cymru.

Mae croeso i chi gysylltu â fi ar 01570 480 907 / 07966 235450 neu gallwch weld rhagor o fanylion ar Facebook.com/wildwesttouch

Diolch yn fawr - Matt Adams.



Cafodd Sian Elin Williams, Aelwyd Llambled yr 2il wobr yn y gystadleuaeth Monolog Bl. 10 a dan 19 oed yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd.

Llangybi a Betws

Hamdden

Eleni dathlwyd Gŵyl Ddewi yn y Castell yn Llambled. Cawsom groeso cynnes a chawl a phwddin traddodiadol i goffau ein Nawdd Sant. Cyn cychwyn am adref buom yn gwrando ar Gôr Clychau'r Fedwen yn canu detholiad o'i rhaglen gerddorol.

Enillwyd y raffl gan Janet Farrow, Maisie Morgan, Mair Spate, Gwenda Thomas, Alunda Jones, Alan Jones, Barry Williams, Rowena Williams, Dilys Godfrey, Sally Davies a Margaret Roberts.

Rhodddwyd pleidlais o ddiolch gwresog i bawb a fu ynghlwm a'r achlysur gan Gwenda Thomas. Trip dirgel fydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 13eg. Bydd y bws yn gadael Cwmam am 12:15 ac yn teithio am Llangybi. Enwau i Sally Davies mor fuan a phosib a chyn Ebrill 9fed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Dion Teilo, Maesycod, Llangybi, am ennill y wobwr gyntaf am ganu unawd o dan 5oed yn Eisteddfod Ysgol Gynradd Y Dderi, Llangybi. Da iawn ti boi! Oddi wrth Mam, Dad, Tomi-Jac, Mamgu a Thadcu Vale, Anti Sian a Mama.

Ysgol Y Dderi

I ddechrau hoffwn longyfarch Mrs Susan, ein cogyddes, ar ennill gwobr bwysig iawn yn ddiweddar, sef - Cogyddes y Flwyddyn, a hynny dros Gymru gyfan. Cafodd fynd i seremoni wobrwyo arbennig yng Nghaerdydd i dderbyn ei gwobr ac i ddathlu mewn steil! 'Rydym yn lwcus iawn i gael cogyddes mor dalentog yn yr ysgol i baratoi prydaau maethlon a blasus i ni bob dydd. Da iawn Mrs Sue!

Cawsom ddathliad Dydd Gŵyl Dewi hyfryd eleni eto, gyda'r tai - Teifi, Dulas ac Aeron, yn cystadlu'n frwd yn Eisteddfod yr ysgol. 'Roedd yn ddiwrnod hwyliog ac fe wnaeth pawb fwynhau'r wledd o gerddoriaeth a llefaru. Enillwyd y gadair am ysgrifennu stori Gymraeg, gan Elinor Griffiths, a'r tlws am y cerddor mwyaf addawol gan Liam Newitt, y ddau yn ddisgyblion Blwyddyn 6. Y tŷ buddugol ar ddiwedd y dydd oedd Teifi. Da iawn blant, a diolch yn fawr i Mrs Enid Evans, y beirniad gwadd, am ei gwaith caled!

Bu nifer fawr o aelodau'r Urdd yn cymryd rhan mewn gwahanol gystadlaethau yn ddiweddar. Ryan Mackie Jones fuodd yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadlaethau Cogurdd, gyda'i smwddi, myffins a'i salad ffrwythau. Yna bu nifer o blant wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd (Cylch a Rhanbarth) - celf a chrefft, dawnsio disgo, dawnsio gwerin, llefaru a chanu unigol, offerynnol, ymgom

a phartïon llefaru ac unsain.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran, ac i'r rhai a gafodd wobwr.

I ddathlu Diwrnod y Llyfr ar ddechrau mis Mawrth, fe aeth plant y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 i Bentre' Bach am dipyn o hwyl a sbri, tra 'roedd y gweddill wedi gwisgo fel cymeriadau allan o'u hoff lyfrau. Gwelsom fôr-ladron, sawl tywysoges, ambell i ddewin a digonedd o chwaraewyr rygbi neu bêl droed yn ystod y diwrnod!

Ar y noson honno wedyn, aeth llond bws o gefnogwyr rygbi brwd lawr i Barc y Scarlets i fwynhau gweld y Scarlets yn herio Connacht. Dyna falch oedd pawb fod y tîm cartref wedi ennill yn hawdd, ac 'roedd hwyliu da ar bob un wrth gael swper yn Frankie & Benny's ar y ffordd adre' wedyn!

Yn ystod yr wythnos Wyddoniaeth, cafodd y plant gyfle i fwynhau arbrofi gydag offer gwyddonol o Ganolfan Techniquet. 'Roedd hwn yn gyfle iddynt ddefnyddio a datblygu ystod o sgiliau, a chael tipyn o hwyl wrth wneud hynny.

A sôn am hwyl, cafwyd digonedd o hwnnw pan ddaeth cwmni teledu i'r ysgol i ffilmio'r rhaglen Stwnsh yn ddiweddar! Bu plant o flynyddoedd 3-6 yn cymryd rhan neu'n gynulleidfa yn y sioe. Cafodd dwy aelod o staff y pleser o gymryd rhan yn yr hwyl hefyd, - Miss Meinir yn fascot i dîm bechgyn Blwyddyn 6 a Miss Rhian i dîm y merched. Dyna sbri a gafodd pawb wrth weld y bechgyn yn ennill, a Miss Rhian druan yn cael ei stwnsho ar y diwedd!!

Yn ddiweddar aeth tîm hoci Blwyddyn 6 i gynrychioli'r ysgol mewn twrnament cyfeillgar yn Ysgol Bro Siôn Cwilt, - cyfle da i ymarfer sgiliau a chystadlu yn erbyn tîmau eraill. Yna fe aeth criw o blant o flynyddoedd 3-6 i gystadlaethau trawsgwlad y cylch yn Llambled, gyda nifer o blant wedi mynd ymlaen wedyn i gystadlaethau Dyfed yng Nghaerfyrddin ar Fawrth yr 22ain. Llongyfarchiadau i bob un, ac yn enwedig i Tirion Lloyd o Flwyddyn

3 a orffennodd yn 10fed yn ei ras, ac sydd felly'n mynd ymlaen i'r rownd nesaf. Da iawn Tirion!

Ers dechrau Chwefror mae dosbarthiadau Blwyddyn 3 a 5 wedi bod yn ddigon ffodus i gael cwmni dwy fyfyrwraig o Goleg y Drindod. Mae Miss Ffion a Miss Lona wedi gweithio'n galed iawn i ddarparu profiadau diddorol a phlesurus i'r plant, ac mae eu hamser gyda ni wedi dod i ben erbyn hyn. Hoffwn ddiolch o galon i'r ddwy am eu gwaith, a gobeithio eu bod nhw wedi elwa cymaint o'r profiadau ag y mae'r plant wedi ei wneud. Pob hwyl i'r ddwy ohonynt. 'Rydym yn ffartweliu hefyd gyda Mrs Sue Evans sydd wedi bod yn dysgu Blwyddyn 1 ers rhai wythnosau tra fod Miss Caryl yn gwella ar ôl llawdriniaeth. Diolch yn fawr iawn iddi hithau am ei gwaith a'i chwmni. Edrychwn ymlaen 'nawr at groesawu Miss Caryl yn ôl i'r ysgol.

C.F.F.I. Bro'r Dderi

Bu C.F.F.I. Bro'r Dderi yn brysur iawn ar achlysur Diwrnod Maes y Sir eleni a gynhaliwyd yn Nhregaron. Bu'r dawnswyr stryd yn llwydiannus iawn i ennill y gystadlaethau a hoffon ni fel clwb ddymuno pob lwc i'r dawnswyr wrth iddyn nhw gynrychioli Ceredigion yng nghystadlaethau Cymru mewn ychydig wythnosau. Hefyd, llongyfarchiadau i Aron Dafydd a gafodd ail agos iawn yng nghystadlaethau trimio oen. Bu'r beirniadwyr stoc dan 16, Rhys Douglas, Rhodri Pugh Davies, Aron Dafydd a Delyth Evans, yn brysur iawn wrth iddyn nhw feirniadu'r gwartheg godro, gwartheg biff, oen tew a'r moch a da iawn am gipio'r ail wobwr am y tîm gorau dan 16.

Yn ogystal, daethom yn gydradd ail fel clwb am y nifer fwyaf o bwyntiau.

Aethom i ymuno â C.F.F.I. Pontsian ar nos Lun olaf y mis yn ei noson sosial i dathlu pen-blwydd y clwb yn 70 oed.

Byddwn yn cyfarfod fel clwb nesaf ar y Sed o Ebrill - croeso i aelodau newydd!



Eisteddfod Ysgol Y Dderi

Carpedi

Gwyn Lewis

Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled

☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

Ffynnonbedr



Morgan, Osian, Leon, Sam, Rhys, Bryn, Iestyn a Dafydd.



yr Urdd hefyd – da iawn Tomos, Sam, Iestyn, Osian, Krystian, Shane, Grace, Lois, Charlotte a Leon.

Cipiodd Rhys Tom Williams y wobwr gyntaf ac Austin Thomas yn ail mewn cystadleuaeth i gynllunio pryd o fwyd blasus a drefnwyd gan yr Adran Arlwyo Sirol. Enillodd Rhys Tom gamera digidol am ei waith ac Austin wedi ennill gwobr ariannol. Da iawn chi! Bu disgyblion yr ysgol yn brysur tu hwnt yn yr Eisteddfod Gylch eleni a dyma'r canlyniadau:- Dawnsio Gwerin bl 3 a 4 – 1af, Dawnsio Gwerin 5 a 6 – 1af, Dawnsio Disgo unigol – 1af Charlotte Saunders, Dawnsio Disgo – 1af, Unawd bl 2 ac iau – 1af Ffion Davies, Llefaru bl 2 ac iau – 1af Ffion Davies; 2ail Catrin Daniel, Unawd bl 3 a 4 – 3ydd Joseph Saunders, Llefaru unigol bl 2 i ddysgwyr – 2ail Aimee Methuen 3ydd Daniel Farr, Unawd bl 5 a 6 – 1af – Charlotte Saunders, Unawd Cerdd Dant bl 5 a 6 – 1af Charlotte Saunders, Llefaru unigol blynyddoedd 3 a 4 – 1af Elan Jones 2ail Sioned Davies, Deuawd – 1af Charlotte Saunders a Joseph Saunders 2ail Megan Mai a Nia Beca, Unawd Pres – 2ail Lois Price, Llefaru 3 a 4 i ddysgwyr – 1af Joseph Gregg, 2ail Aisvarya Sridar 3ydd Phoebe Cory Wright, Alaw Werin – 1af Elan Jones, Unawd Cerdd Dant – 1af Megan Mai 3ydd Elan Jones, Parti Unsain yr adran – 1af Grŵp llefaru i ddysgwyr - 1af; Unawd Llinynnol – 1af Charlotte Saunders, Grŵp llefaru'r adran – 1af Parti Deulais – 1af.

Llongyfarchiadau'n arbennig i Charlotte Saunders ar gipio pum gwobr gyntaf – tipyn o gamp! Diolch i holl staff yr ysgol sydd wedi bod ynghlwm â hyfforddi'r disgyblion gogyfer â'r Urdd a'r gweithgareddau chwaraeon.

Bu'r disgyblion yn hynod lwyddiannus yn Eisteddfod y Sir hefyd gan gipio'r gwobrau canlynol :- Charlotte Saunders 2ail Unawd, 3ydd Cerdd Dant, 2ail Offerynnol, 2ail Dawnsio disgo unigol a 1af yn y ddeuawd gyda Joseph Saunders. Ffion Davies 1af unawd a 3ydd am lefaru. Elan Jones 3ydd Alaw Werin a 3ydd am lefaru, parti llefaru i ddysgwyr 3ydd, Parti deusain 2ail, Parti unsain yr adran 1af a pharti llefaru'r adran 3ydd, Dawnsio Gwerin 3 a 4 2ail, Dawnsio Gwerin 5 a 6 1af, Dawnsio Disgo 1af.



Cafwyd ymweliad gan y Bws Coginio a bu disgyblion o flynyddoedd 4,5,6 a 7 yn cael cyfle i goginio gwahanol fwydydd ar y bws. Roedd y profiad yn un arbennig a gobeithio y daw'r bws yn ôl atom yn y dyfodol agos. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo drwy olchi llestri. Mae disgyblion y ffrwd ail-

Daeth llwyddiant ysgubol i ddim rygbi'r ysgol wrth iddynt ennill cystadleuaeth y rhanbarth a gynhaliwyd gan yr Urdd yn ddiweddar – da iawn Iestyn, Tomos,

Bu tîm hoci'r ysgol yn llwyddiannus hefyd yn ennill twrnament ym Mro Sion Cwilt a gwneud yn hynod o dda yn nhwrnament

iaith wedi cael cyfnodau hir o gwblhau gweithgareddau amrywiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddiweddar er mwyn rhoi hwb pellach i'r Gymraeg fel ail-iaith yn yr ysgol. Cynhaliwyd Eisteddfod yn yr ysgol i ddathlu Gwyl ein Nawddsant a chafwyd diwrnod brwd o gystadlu gyda thîm Pedr yn ennill ar ddiwedd y prynhawn. Diolch i'r staff o'r Sector Uwchradd am eu parodrwydd i feirniadu'r cystadlaethau.

Daeth aelodau o'r chweched sef Carwen, Chris a Mererid i gyflwyno gwasnaeth yn seiliedig ar y Gemau Olympaidd i ddisgyblion yr Adran Iau a diolch iddynt am gyflwyniad hynod ddiddorol.

Bu Eirian o gaffi Mark Lane yn gwneud brechdanau ac yn siarad am ei waith gyda disgyblion blynyddoedd 3 a 4 a diolch iddo am ei barodrwydd i ddod atom.

Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 1 y cyfle i gael cyflwyniad ar ddiogelwch y ffyrdd gan un o'n rhieni sef Mr Medill a chafwyd llawer o sbort a sbri gan ddysgu ar yr un pryd.

Cynhaliwyd dwy noson lwyddiannus yn ddiweddar gan y Gymdeithas Rien i ac Athrawon sef Bingo gyda Harold ac yna Noson i'r Gwragedd ac ambell ddyn hefyd yn mwynhau torri gwallt neu "massage". Diolch i bawb a gefnogodd mewn unrhyw ffordd.

Mae'r deintydd wedi gwneud archwiliad o ddannedd nifer o ddisgyblion ofewn blynyddoedd 2 3 a 4 ac wedi codi ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd glanhau dannedd yn rheolaidd.

Yng nghystadleuaeth trawsgwlad y Cylch daeth y canlynol i'r brig:- 4ydd Rowan Woodcraft, 6ed Lucy Davies, 10fed Shannon Walton, 2ail Ruth Davies, 4ydd Lauren Hill, 2ail Jennifer Hoe, 4ydd Kaycee Butler, 5ed Lowri Lewis, 2ail Grace Page, 6ed Menna Kime, 10fed Maja Poczatek, 3ydd Owen Rowcliffe, 7fed Filip Poczatek, 8fed Olaf, 10fed Leo Mc Mullan, 3ydd Jac Williams, 4ydd Rhodri Morgan, 5ed George Newton, 8fed Joseph Saunders, 1af Iestyn Owens, 2ail Dewi Hobbs, 4ydd Bryn Jones, 8fed Dafydd Lewis, 1af Daniel Willoughby, 2ail Iestyn Evans, 7fed Shane Davies, 10fed Tomos Jones. Yng nghystadleuaeth trawsgwlad y Tair Sir a gynhaliwyd yn Nantyci gwnaeth nifer o'r disgyblion yn dda iawn gyda Ruth Davies yn cipio'r 4ydd safle a Grace Page hefyd yn 4ydd. Da iawn chi ferched.

Ysgol Gyfun Llanbed

Llongyfarchiadau mawr i Carwen Richards, ein Prif Ferch, ar gael cynnig ysgoloriaeth gwerth £2,500 i astudio Cymraeg ac Addysg Gorfforol ym Mhrifysgol Bangor. Mae Carwen hefyd wedi derbyn y gwahoddiad i gario'r Fflagl Olympaidd. Bydd hi'n un o'r 8,000 o bobl ym Mhrydain sydd yn cael y ffrwyd yma. Cynllunnir taith y Fflagl Olympaidd fel bod neb yn y Deyrnas Unedig fwy na deg milltir i ffwrdd o'r person sy'n cario'r Fflagl. Llongyfarchiadau hefyd i Gareth Davies sydd wedi derbyn ysgoloriaeth i astudio Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Morgannwg. Bydd Gareth yn cael ei ffioedd dysgu wedi eu talu yn ogystal â swm o arian bob blwyddyn yn ystod ei gwrs gradd. Pob dymuniad da i holl fyfyrwyr Blwyddyn 13 yn ystod eu harholiadau Safon Uwch. Llongyfarchiadau hefyd i Cerys Roberts, Tobiasz Lykowski a Christina Davies sydd wedi derbyn Gwobrau Teilyngdod o £1,000 i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Bu Gwawr Hatcher Bl.11, Meleri Davies Bl.11, Amelia Davies Bl.12, Bethan Hardy Bl.13 ynghyd â Chris Ashton ac Aled Thomas (cyn-ddisgyblion o'r ysgol) yn perfformio yn Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd ar y 4ydd o Fawrth fel aelodau o gôr enfawr o bobl ifanc o bob cwr o Gymru. Roedd yn rhan o ddiwrnod 'Music Nation', wedi ei drefnu gan y Pwyllgor Campau Olympaidd a'r Campau Paralymaidd, a'r gyngerdd yn cael ei ddarlledu'n fyw ar radio 3. Roedd y bobl ifanc hyn yn perfformio premiere byd o'r darn 'Songs of the Earth' gan Karl Jenkins a'r dyn ei hun yn arwain y perfformiad. Profiad bythgofiadwy! Cerddorfa Ceredigion.

Ar y 25ain o Chwefror, bu Arianna Morris o 8 Non ar benwythnos o hyfforddiant fel aelod o Gerddorfa Ceredigion yn chwarae'r sielo. Pinael 4 diwrnod o ymarfer oedd cyngerdd yn y neuadd fawr yn Aberystwyth. Da iawn Arianna. Dalia ati. "CanSing".

Ar y 21ain o Chwefror, bu tua 120 o ddisgyblion Bl.7 draw yn Neuadd ysgol Ffynnonbedr yn derbyn sesiwn ymarferol gan Aled Powys sydd yn aelod prysur o "Only Men Aloud". Roedd hwn yn rhan o fenter o'r enw "CanSing" a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Y syniad yw darparu rhaglen hyfforddiant ac adnoddau cysylltiedig a'r cwricwlwm i gefnogi dysgu canu. Roedd yn bleser bod yn rhan o'r sesiwn a gweld pawb yn mwynhau ac yn frwdfrydig iawn yn eu hymateb i Aled Powys. Roedd yn bleser hefyd i bawb gael cymryd rhan a gweithio gyda fe. Côr Ceredigion; Ar yr unfed ar bymtheg o Fawrth aeth y disgyblion Bl. 7, 8 a 9 canlynol i Ysgol Aberaeron i ymarfer casgliad o ganeuon fel Cor S.A.B, o dan arweiniad Emyr Wynne Jones. 9P Robert Davis, Dale Davies, Aaron Kersey; 9G Myfi Studman; 9N Mared Jones 9D Hannah James, Rhian Davies, Elin Evans, Rebecca Davies, Elin Hughes; 9S Daniel Simmonds 8P Oliver Griffith Salter 8D Teon Rees, Morgan Lewis, Jac Evans, Meirion Thomas, Lleucu Ifans, Jessica Davies Elan Lewis, Rhian Harries, Rhiannon Davies, Caryl Jacob

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan parhad

8N Natalie Plant, Rhiannon Jevon; 7N Llio Jones, Sion Evans 7P Jasmine Davies, Ffion Evans, Alpha Jones, Briallt Williams; 7S Sheena Marshall 7D Luke Miller, Chloe Clark, Elen Lewis, Thomas Millington, Leoni Mason, Zoe Jones, Sally Rees Buont yn ymarfer o 10 y bore tan 6 o'r gloch y nos. Yn dilyn hyn bu yna gyngerdd yn Neuadd Ysgol Llanbedr ar y 26ain a phawb yn perfformio ar eu gorau. Pleser oedd gweld cymaint o ddisgyblion Llanbedr yn y Cor.

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Cyngor Ysgol ar Ddydd Gwener, 16 Mawrth yn Ysgol Ffynnonbedr. Cafodd aelodau'r Cyngor Ysgol gyfle i holi'r Prifathro, Mr Dylan Wyn, am yr oblygiadau wrth ddoed yn ysgol 3-19 ym mis Medi ynghyd â gofyn cwestiynau am nifer o faterion eraill sydd wedi codi hefyd. Gellir darllen cofnodion y cyfarfod yn llawn ar wefan yr ysgol. 'Earth Hour'; Mae'r adran gelf yn cydweithio â'r grŵp cymunedol lleol 'Transition Llanbedr' unwaith eto.

Eleni mae'r arlunydd lleol Lynne Denman yn dod i weithio gyda disgyblion 7 Steffan yn ystod eu gwersi celf. Mae 'Transition Llanbedr' yn cymryd rhan mewn ymgyrch 'Earth Hour' gan y WWF, ac wedi gofyn am help wrth ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan! Syniad syml iawn yw 'Earth Hour', ond o ganlyniad i'w natur, mae'r syniad wedi troi'n ffenomen fydeang dros nos! Bydd miliynau o bobl ar draws y byd i gyd yn diffodd y goleuadau yn eu tai am awr gyfan, ar Fawrth y 31ain rhwng 8.30y.h a 9.30y.h. Pwrpas ymgyrch 'Earth Hour' yw dangos ein gwerthfawrogiad o'r byd, ac awgrymu sut ddylwn fynd ati i'w warchod. Bydd 'Transition Llanbedr' yn cynnal Twmpath yn Neuadd Fictoria yn Llanbedr ar y 31ain o Fawrth, er mwyn dathlu'r digwyddiad a bydd y swyddogion yn gollwng llusernau o waith disgyblion yr ysgol yn rhydd. Mae'r disgyblion wrthi ar hyn o bryd yn creu'r llusernau allan o helyg a phapur sidan. Da iawn blant! Collage Barcud Coch: Mae'r criw Sgiliau Bywyd (sef Megan Grooby, Candy Millington, Michael Hancock, Hoby Lewis, Catherine Evans, Steffan Davies a Tony Gardner) wedi bod wrthi'n creu collage anferth o Farcud Coch fel rhan o'u gwaith celf a dylunio. Mae pob un ohonynt wedi gweithio'n galed iawn dros yr wythnosau diwethaf! Bydd y Barcud yn cael ei arddangos yn y Neuadd. Llongyfarchiadau mawr i bawb, mae'r gwaith yn ardderchog! Canolfan y Bont: Llongyfarchiadau mawr i Bethan Mair Lewis!

Enillodd Bethan y wobwr 'The John Brunt Achievement Award' (a enwyd ar ôl ein cyn ddisgybl John Brunt), wedi iddi wneud y cynnydd mwyaf yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mathew Jeremiah, am wneud y cynnydd gorau yng Ngholeg Ceredigion yn ddiweddar. Ar hyn o bryd, mae Mathew yn mynychu gwersi Coganio, Technoleg Gwybodaeth a Gwaith Coed. Llongyfarchiadau hefyd i Joshua Hemming. Cyrhaeddodd radd 4 yn ddiweddar yn y Wobwr Nofio Rock



Hopper.

Ar ddydd Gwener yr unfed ar bymtheg o Fawrth fe gynhaliwyd Bore Coffi gan 11 Pedr er mwyn codi arian i Sian Elin tuag at ei thaith i

Batagonia. Mae Sian Elin am fentro allan i Batagonia ddiwedd Mis Hydref i wneud gwaith gwirfoddol ac i hybu'r Iaith Gymraeg. Cafodd ei dewis allan o nifer o ymgeiswyr er mwyn cymryd rhan yn y daith gyda'r Urdd. Mi fuodd y Bore Coffi yn un llwyddiannus gan godi swm o arian anrhydeddus iawn. Hoffai Sian Elin ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cynhadledd Byd Gwaith bl 10 Cynhaliwyd Cynhadledd deuddydd i ddisgyblion bl 10 eleni eto. Pwrpas y gynhadledd oedd codi ymwybyddiaeth y disgyblion am y gwahanol fathau o swyddi sydd ar gael, edrych ar broblemau iechyd a diogelwch o fewn gwahanol sefydliadau, yn ogystal a datblygu sgiliau megis gweithio mewn tim a datrys problemau. Ar y diwrnod cyntaf cafwyd 'Diwrnod Mentergarwch' o dan arweiniad Gyrfa Cymru; cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn meddwl am logo a slogan ar gyfer cynnyrch o'u dewis - falle welwn ni rai ohonynt ar 'The Apprentice' rywbryd yn y dyfodol! Ymweld a busnesau Abertawe oedd trefniadau dydd Mercher. Fe ymwelwyd ag Amgueddfa Glannau Abertawe, Marks & Spencer, Theatr y Grand, sinema Vue a swyddfeydd Admiral. Cafwyd dau ddiwrnod hwylus a buddiol a hoffwn ddiolch i swyddogion Gyrfa Cymru am eu gwaith paratoi ac i'r cwmnïau am eu croeso.

Cafodd disgyblion Bl. 10-13 y cyfle i ymweld a Chynhadledd Gyrfaedd a drefnwyd ar y cyd gydag ysgol Tregaron. Roedd yna amrywiaeth o ymgynghorwyr o fyd gwaith, colegau a phrifysgolion a derbyniodd y disgyblion lawer o wybodaeth berthnasol a chyfredol. Hoffwn fanteisio ar y

cyfle i ddiolch i Ms Iona Jones, ein Swyddog Gyrfaedd, a swyddogion eraill Gyrfa Cymru, am eu gwaith wrth ei drefnu.

Am 4 diwrnod ar ddiwedd y mis bydd timau hoci a rygbi hŷn yr ysgol yn teithio i Limerick yn Iwerddon yng ngofal Athrawon yr adran Addysg Gorfforol. Bydd y timau yn chwarae dwy gêm yr un, a gobeithio bydd cyfle i weld gem Leinster v Munster yn ystod y daith hefyd. Hoffai'r adran ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi a chyfrannu'n ariannol tuag at y daith. Heb eu help ni fyddai'r daith yn bosib.



Ar Fawrth y 15fed 2012, cymerodd 27 o ddisgyblion Bl 7-11 ran mewn prosiect sy'n cael ei drefnu gan y BBC. O dan oruchwyliaeth Mr Mark Davies a mentoriaid o'r 6ed dosbarth creodd y disgyblion wefan newyddion (gwelir www.ysgol-llanbedr.org.uk) a rhaglen deledu ar lein. Ar y dydd roedd y BBC yn gwneud adroddiadau cyson ar BBC1; News 24; Radio Wales; Radio Cymru a S4C. Roedd y disgyblion yn ffodus iawn i allu cyd-weithio gyda chyflwynwyr y BBC yn ystod y dydd wrth i'r disgyblion ysgrifennu eu hadroddiadau ar gyfer ein gwefan. Cafodd y rhan fwyaf o'r disgyblion gyfle i gymryd rhan yn y fenter, roedd eu mwynbwn yn wych ac yn sicr fe roddwyd Llanbedr 'ar y map' fel petai.

Cafodd yr ysgol ei dewis allan o 1185 o ysgolion i ddarlledu rhaglen newyddion 'Adroddiad Ysgol y BBC' am 1 o'r gloch ar sianel radio Adroddiad Ysgol y BBC. Profiad unigryw yn wir. 266,000 oedd y rhif isaf o wylwyr a hynny ar Wales Today, tra roedd tua 3,500,000 yn gwylio News 24. Hoffai Mr Davies longyfarch pawb a gymerodd ran ar y dydd. Gallwch fod yn falch iawn o'ch cyfraniad, ac mae'r ysgol a'ch rhieni yn rhannu'r meddylfryd yma dw i'n sicr. Bydd y prosiect yn parhau ar ol y Pasg, gyda rhagor o gyfweiliadau i'w trefnu.

Ar y 14eg o Fawrth, aeth yr aelodau canlynol o flwyddyn 10, sef Luigi Challis, Caleb Davis, Christopher Barker, Jaeger Petry, Liam Glasson, Dorian Davies, Shannon Evans a Melissa Davies, i Abertawe i gael blas ar wahanol swyddi sy'n seiliedig ar Gemeg. Mynychwyd 8 darlith gan amryw o gwmnïoedd yn ystod y dydd, megis Dŵr Cymru, 3M a TATA. Roedd y dydd yn un llwyddiannus iawn, gyda phawb wedi mwynhau dysgu gwybodaeth bwysig am y cwmnïoedd amrywiol, a hefyd am y 3 'P' sydd i fod cael eu gollwng yn y Tŷ Bach.

Cystadleuaeth Cogurdd 2012; Cynhaliwyd y rownd gyntaf i Fl 7 - 9 yn yr ysgol ym mis Chwefror. Y cystadleuwyr oedd - Roedd y safon yn uchel iawn eleni gyda phob un o'r cystadleuwyr wedi mwynhau cymryd rhan. Y ddwy fuddugol sy'n mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf a gynhelir yng Ngholeg Pibwrlwyd, Caerfyrddin ar Ddydd Mawrth 24ain o Ebrill yw Beth Davies a Betsan Jones. Llongyfarchiadau hefyd i Elinor Jones 11P sy'n mynd ymlaen i gystadlu yn y grŵp oedran Bl 10 - 13 ar yr un dydd. Pob lwc i chi gyd!

Bu'r Bws Coganio ar gampws yr ysgol am rai dyddiau ar ddechrau mis Mawrth, a bu 16 o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn ddigon ffodus i fynychu un o'r sesiynau coganio oedd yn cael eu cynnal ar y bws. Cawsant lawer o hwyl yn paratoi samosas llysiau a salad, ac yn blasu smwddi ffres.

Trefnwyd ymweliad a thref enedigol Shakespeare, Stratford Upon Avon, ar 26 Ionawr er mwyn gweld cynhyrchiad yr RSC o 'Taming of the Shrew'. Roedd y cynhyrchiad yn un pwerus iawn a gwnaeth y disgyblion o Flwyddyn Deg a Blwyddyn Deuddeg elwa'n fawr o'r profiad. Cynhaliwyd dadl fywiog ar y testun 'Cred y tŷ hwn na ddylid dysgu Shakespeare mewn ysgolion bellach' ar Chwefror y 1af, fel rhan o weithgareddau'r Eisteddfod Ysgol. Penderfynodd y gynulleidfa (ar ddiwedd y ddadl) y dylid cadw Shakespeare ar y fwydlen lenyddol!

Ar Fawrth yr 8fed, teithiodd criw o'r chweched i Nantgaredig ar gyfer cyflwyniad 'Bwrdd yr Iaith'. Yno, fe gyflwynon ni ein gwaith gyda'r Clwb Cymraeg ar gyfer Blwyddyn 7. Roedd yn braf gweld syniadau ysgolion eraill ac roedd yn gyfle i rannu syniadau gyda'n gilydd. Hoffem ddiolch i Miss Hedydd Jones am ei chefnogaeth gyda'r clwb yn ystod y flwyddyn. Gobeithiwn y bydd y clwb yn parhau i ddatblygu yn y dyfodol. Ymhellach, hoffem ddiolch i aelodau blwyddyn 7 am fod mor brydlon a chydweithio'n aeddfed gyda ni'r chweched, gan sicrhau bod y Clwb yn mynd o nerth i nerth.



Aelod Hŷn y Flwyddyn, Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yw Mererid Davies o Glwb Pontsian.



Aelod Iau y Flwyddyn Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yw Cennydd Jones o Glwb Pontsian.

Mae mis prysur arall wedi mynd hebio i Glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion. Mae swyddogion newydd am y flwyddyn 2012-2013 wedi cael eu dewis, sef Llion Davies, Troedraur yn Ffarmwr Ifanc a Gwenan Davies, Llanwenog yn Frenhines y sir, gydag Elin Dafydd, Troedraur, Katie-Ann Briddon, Caerwedros, Cerys Jones, Llanwenog a Siwan Davies, Troedraur yn forwynion. Llongyfarchiadau mawr i'r chwech ohonynt, ag edrychwn ymlaen i'w gweld ar llwyfan Rali Llanwenog. Rwy'n siwr bod llawer ohonoch wedi gweld perfformiad panto Talybont yng nghystadleuaeth Cymru ar S4C yn ddiweddar. Braff oedd clywed eu bod wedi dod yn drydydd ar ddiwedd y cystadlu brŵd yn ogystal a chipio y cwpan am y perfformiad technegol orau. Da iawn chi. Rydym wedi cael dau ddiwrnod o gystadlu fel rhan o'r diwrnod maes. Dyma'r buddugwyr: Ffensio – Llanddeiniol, Effeithlonrwydd a Diogelwch – Troedraur, Trimio Oen – Dafydd James, Bryngwyn, Arddangosfa Ciwb – Llangeitho, Dawnsio Stryd – Bro'r Dderi, Diogelwch Iau – Rebecca Reed a Delor Rees, Penparc, ATV – Llion Davies a Rhodri Organ, Troedraur. Braff oedd gweld dros 100 o aelodau yn cymeryd rhan yng nghystadleuaeth barnu stoc, a dyma'r buddugwyr: Stocman dan 14 – Tomos Jones, Pontsian, Tîm dan 14 – Llanwenog, Stocman dan 18 – Guto Jones, Llanwenog, Tîm dan 18 – Llanwenog, Stocman dan 26 – Dion Davies, Pontsian, Tîm dan 26 – Troedraur. Ar ôl y cystadlu daeth Llanwenog, Bro'r Dderi a Talybont yn gydradd ail â Troedraur yn cipio cwpan y diwrnod maes. Llongyfarchiadau i'r holl cystadluwyr a phob lwc i'r rhai buddugol wrth iddynt fynd ymlaen i gynrychioli'r sir yng nghystadlaethau Cymru. Diolch yn fawr iawn i'r holl beirniaid a hyfforddwyr, perchnogwyr y stoc a pheiriannau ac yn enwedig i Mart Tregaron a Fferm Coleg Aberystwyth, Penrhyncoch am adael i ni ddefnyddio eu cyfleusterau arbennig. Dyma enillwyr lwcus clwb 200 y sir am y ddau fis diwethaf: Chwefror: 1 – Bethan Jones, Blaengwyddon Fawr, Capel Iwan Road, Castell Newydd Emlyn, 2 – Arwyn Davies, Pentre, Llanfair Clydogau, Llambled, 3 – Marc a Wendy Jenkins, Ysgubor Wen, Mydroilyn, Llambled. Mawrth: 1 – Rhian Haf Evans, Glanyrafon, Talybont, 2 – Eifion ac Elenid Jones, Talar Wen, Cwmsychbant, Llanybydder, 3 – Rhun a Ceris Fychan, Penwern, Cilcennin, Llambled. Mae cinio dathlu'r sir, y digwyddiad dathlu olaf, ar y 30ain o Fehefin ym mhafiliwn Bontrhydfendigaid felly cofiwch gysylltu â Mareid ag Anne yn y swyddfa ar 01545 571333 i archebu eich lle. Croeso cynnes i bawb.

Dyddiadau i'ch dyddiaduron - **Mis Ebrill:** 8fed: Diwrnod Hwylus Sul y Pasg, Clwb Rygbi Aberaeron; 18fed: Pwyllgor Gwaith ag Is-bwyllgorau'r Sir; 20fed: Gala Nofio'r Sir; 23ain: Cwis Iau y Sir. **Mis Mai:** 2il: Chwaraeon y sir; 9fed: Athletau y sir; 16eg: Pwyllgor gwaith ag Is-bwyllgorau'r sir.

Sir Gâr - Llwyddiant Llandudno!

Ar benwythnos y 10fed-11eg o Fawrth teithiodd nifer o aelodau C.Ff.I Sir Gâr lan i Landudno i gystadlu yng Ngwledd o Adloniant Lefel Cymru. Wedi ennill y fraint o gystadlu yn sgîl eu llwyddiant ar lefel Sirol mi wnaeth C.Ff.I Cynwyl Elfed a C.Ff.I Llanymddyfri fwynhau y profiad o gystadlu yn erbyn Clybiau o bob rhan o Gymru a daethant a chlod i'w Clybiau ac i'r Sir.

Bu yna gystadlu brwd trwy gydol y penwythnos gyda C.Ff.I Llanymddyfri yn dod yn 3ydd yng nghystadleuaeth y Pantomeim Saesneg a C.Ff.I Cynwyl Elfed yn cipio'r 2ail safle yn y pantomeim Cymraeg- llongyfarchiadau mawr iddynt. Hefyd yn ystod y penwythnos bu Aled Jones o Glwb Dyffryn Cothi a Menna Williams, C.Ff.I Llanfynydd yn cystadlu yng nghystadlaethau aelod Hŷn a Iau y flwyddyn. Llongyfarchiadau mawr i Aled Jones ar ennill teitl Aelod Hŷn C.Ff.I Cymru am y flwyddyn sydd i ddod.



Clwb Bro'r Dderi a ddaeth yn gydradd ail gyda Chlybiau Llanwenog a Talybont ar ddiwedd y Diwrnod Maes yn Nhregaron.



Tîm Bro'r Dderi a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth Dawnsio Disgo. Byddant yn cyfadlu ar lefel Cymru ym mis Ebrill.

Gofynnir am gyfraniad o £5 er mwyn rhoi neges o ddiolch ym mhapur bro Clonc.

Llwyddiant Carwyn

Cipiodd Carwyn Davies cyn ddisgbl Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan wobwr anrhydedd uchel yng nghystadleuaeth Cenedlaethol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Big Bang Prydain yn Mhirmingham.

Dechreuodd y daith i Carwyn nôl adeg ei arholiadau TGAU pan ddyluniodd a chreuodd lamp lliwgar ar gyfer pobl ag anghenion arbennig. Cafodd ei enwebu gan Aled Dafis ei athro Technoleg i gystadlu yng nghystadleuaeth Big Bang Cymru.

O ganlyniad i hynny treuliodd o 15fed – 17eg o Fawrth yn yr NEC ym Mhirmingham yn cystadlu ac arddangos ei lamp sef yr Hedgelighthog yn un o ddigwyddiadau mwyaf Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prydain lle bu dros 56,000 o bobl yn ymweld a'r digwyddiad. Cafodd brofiad arbennig a hoffai ddiolch i bawb a oedd ynghlwm a'i lwyddiant.



Llanwnnen



Roedd y plant a'r staff yn edrych yn rhyfedd iawn ddechrau'r mis wrth iddynt i gyd ddod i'r ysgol wedi eu gwisgo fel cymeriadau allan o lyfrau i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Roedd hi'n braf dod i ddeall beth oedd hoff lyfr pawb.

Ysgol Llanwnnen

Bu'r ysgol yn llwyddiannus yn ddiweddar yn ennill Baner Werdd am ein gwaith wrth ymdrechu i fod yn ysgol eco. Rydym hefyd wedi ennill deilen gyntaf yn y cynllun Ysgolion Iach. Diolch i Mrs Llwyd a'r Pwyllgor Eco am arwain y gwaith hwn.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a fu'n cymryd rhan yn yr Eisteddfod Gylch ac yn arbennig i aelodau'r grŵp llefaru a ddaeth yn ail. Bu'r ysgol hefyd yn rhoi adloniant yn noson Cawl a Chân y pentref gan gyflwyno nifer o eitemau'r Eisteddfod i'r pentrefwyr, gan gynnwys y parti unsain a'r dawnsio disgo.

Go lew wir i Meirion Lloyd, blwyddyn 3 a Heledd Jenkins, blwyddyn 5 ar ddod yn gyntaf yn eu rasys traws gwlad yng nghylch Llambled. Llongyfarchiadau hefyd i holl aelodau'r adran Iau a gymerodd ran, gyda nifer fawr yn dod yn y 10 safle cyntaf.

Croeso cynnes i Nia Williams, Tynllyn ac i Swyn Tomos, Dol-mebyd a fydd yn cychwyn yn yr ysgol wedi'r Pasg. Rydym yn edrych ymlaen at eich cwmni.

Bu disgyblion blwyddyn 6 yn brysur ar ol ysgol un noson yn paratoi swper i rieni a staff yr ysgol. Cafwyd gwledd ganddynt a bu'r disgyblion yn dysgu sgiliau newydd gyda Gill Evans o'r Adran Arlwyio a Sian Davies ein cogyddes. Da iawn i dim pêl-rwyd yr ysgol a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth gylch yn ddiweddar.

Cyflwynodd swyddogion y Cyngor Ysgol £200 i'r Uned Chemotherapy Ysbyty Glangwili. Casglwyd yr arian yn ystod y Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Cribyn y Tymor diwethaf.

Sefydliad y Merched

Bu aelodau'r mudiad yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda Swper Cymreig yn y Pantri yn Llambled. Fel arfer cafwyd gwledd arbennig gan Delyth a phawb yn mwynhau'r cawl a'r pwdinau blasus. Trefnwyd y noson gan Ceinwen Roach a Mary Davies a diolchodd Avril, y Llywydd, iddynt am eu trefniadau trylwyr.

Enillwyd cystadleuaeth y mis am eitem ddiddorol wedi'i gwneud yng Nghymru gan Avril, sef Llyfr Dathlu 70 Mlynedd o Glybiau Ffermwyr Ifanc



Diolch i bawb a wnaeth gefnogi'r daith gerdded ar ddydd Sul heulog. Cafwyd amser da yn cyd-gerdded a chael egwyl a helfa wyau Pasg cyn gorffen ein taith o gwmpas y pentref. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Heather Price am gefnogi'r ysgol unwaith eto drwy gerdded gyda ni a sicrhau ein bod yn derbyn y cynllun Punt am Bunt gan y Banc Barclays.

yng Ngheredigion.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Ngwesty'r Grannell, Nos Lun 2 Ebrill gyda Mrs Joan Jones, Llambled yn arddangos ei chasgliad o waith llaw.

Cawl a Chân

Braf oedd gweld y gymuned wedi dod ynghyd eleni eto i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yng Ngwesty'r Grannell, nos Wener, 16 Mawrth. Cawsom ein diddanu gan blant dawnus ysgol gynradd y pentref ar ddechrau'r noson a chawsom eitemau o ganu, adrodd, canu offerynnau a hefyd dawnsio disgo. Yn dilyn yr adloniant cafwyd cawl blasus a wnaed gan Susan a staff y Grannell ac i gloi'r achlysur, fe'n swynwyd gan leisiau hyfryd chwech o aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog. Diolch i bawb am noson bleserus iawn.

Teledu

Yn ystod mis Mawrth, bu criw Ffermio [S4C] yn ymweld â Fferm Blaenwaun-ganol, yn sgil llwyddiant Gareth ac Avril Jones a'u merched yn sioe Nadolig 2011 Marchnad Anifeiliaid Aberteifi.



Enillodd y teulu Bencampwriaeth a'r Is-Bencampwriaeth yn adran yr ŵyn tew yno sioe mor safonol! Bu Alun Elidyr a'r tîm ffilmio yn canolbwyntio ar yr ŵyna ym Mlaenwaun-ganol, yn ogystal a gwerthfawrogi'r gwaith cadwraeth sydd wedi ei wneud ar y fferm dros y blynyddoedd.

Mae CLONC ar werth yn:

Awen Teifi, Aberteifi
Caxton, Llambled
Compton, Llanybydder
Co-op, Llambled
Eryl Jones, Llambled
Garej Central, Llanwnnen
Garej Checkpoint, Harford
Garej LFS Llandeilo
Glennydd, Cwrtnewydd
Siop Gomerian, Llandysul
Igamogam, Llandeilo
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambled
Lomax, Llambled
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder

Aeron Booksellers, Aberaeron
Siop Llanyby
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Spar Llambled
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafof, Gorsgoch
t-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

a thrwy danysgrifio am £17.50.

Cysylltwch â:
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Hysbys

**Llais cryf
dros
Llambled
Pont Steffan**

HARRIS HAG

X

Hysbysuwyd gan R. D. Harris, 4 Tŷ Mawr, Llanllwni, Pont Steffan

Er clod i ddemocratiaeth leol

Mae'n anodd gwybod faint o bobol fydd yn pleidleisio yn etholiadau'r cynghorau sir. Un peth sy'n sicr, mae'r ffigwr yn debyg o fod yn uwch yn ardal Clonc nag mewn llawer lle trwy Gymru.

Un rheswm syml am hynny ydi ein bod ni mewn ardal wledig fel hon yn adnabod ein cynghorwyr a'u bod nhwthau'n ein nabod ni.

Mi fydd yr etholiadau yn ein ward ni yn Llanwenog a Llanwnnen hefyd yn gyfle i ddiolch o galon i Haydn Lowtre am flynyddoedd o wasanaeth ar Gyngor Ceredigion.

Mae'n enghraifft berffaith o gynghorydd lleol da, yn cynrychioli ei bobol yng ngwir ystyr y gair, yn cefnogi ac yn annog ac yn dangos diddordeb byw yn y r ardal a'i dyfodol.

I gynghorydd cydwytodol fel fo, mae'r swydd siŵr o fod yn dreth fawr, yn llyncu amser bob awr o'r dydd. Mae rhai'n mynd yn gynghorwyr er mwyn sylw neu statws ac eraill, fel Haydn a sawl un tebyg iddo fo, yn cymryd y swydd er mwyn gwasanaethu.

Peth hen ffasiwn iawn ydi hynny ond, trwy lwc, mae'n argoeli y bydd y ward acw, beth bynnag, yn cael olynydd yn yr un steil. Ac, erbyn heddiw, yn y gwaith lleol agos-aton-ni y mae cynghorwyr yn gallu gwneud y cyfraniad mwya' gwerthfawr.

Yn ddistaw bach, mae grym awdurdodau lleol i ddylanwadu ar bolisiâu mawr wedi cael ei danseilio. Mae pob llywodraeth yn pregethu'u bod nhw'n trio rhoi'r pŵer yn nwylo pobol leol; mewn gwirionedd, maen nhw'n gwneud popeth allan nhw i fynd yn groes i hynny.

Efallai ei bod yn gwneud sens ariannol i gynghorau gydweithio mwy mewn rhai meysydd ond mae yna stori arall y tu ôl i'r symudiad hefyd – trwy wthio cynghorau at ei gilydd mewn ffordd ar hap, mi fydd yn haws i'r canol eu rheoli ac yn fwy anodd i ni'r pleidleiswyr gadw llygad arny'n nhw.

Yn rhyfedd iawn, yr awydd i dorri grym y cynghorau oedd wedi arwain at gael gwared ar yr hen siroedd mawr ynghanol y 90au. Roedd siroedd fel Dyfed yn llawer rhy gryf at ddant San Steffan ac felly roedd rhaid eu rhannu.

Ers hynny, trwy gyfnodau un llywodraeth ar ôl y llall, mae gallu cynghorau i weithredu wedi cael ei lyffetheirio.

Eisoes mae llawer iawn o waith y cynghorau lleol wedi'i reoli gan benderfyniadau yng Nghaerdydd neu Lundain. Mae'r cadwyni mor dynn bellach fel mai ychydig iawn o le sydd yna i gynghorau newid pethau er lles eu hardaloedd eu hunain.

Y ffordd gliria' o reoli ydi trwy gadw gafael ar enau'r sach – mynnu bod rhaid i arian gael ei wario fel a'r fel. Y ffordd arall ydi gosod cymaint o ddyletswyddau statudol ar gyngor fel nad oes fawr ddim arall ar ôl.

Llywodraeth ganol hefyd a benderfynodd bod rhaid i gynghorau symud i gyfeiriad system Cabinet, sy'n golygu bod y nerth yn nwylo llond llaw o gynghorwyr a'r rhan fwy a' o'r gweddill yn gymharol ddi-rym.

Mae achos prawf o hynny ar hyn o bryd yn Nihewyd ar ôl i'r cyngor llawn bleidleisio tros roi gras i'r ysgol leol, tra bod y Cabinet yn dal i fynnu bod rhaid ei chau.

Ffordd arall sydd gan lywodraethau o dorri grym cynghorau ydi eu hosgoi nhw'n llwyr – er enghraifft trwy sefydlu ysgolion rhydd sydd heb fod dan ofal yr awdurdodau lleol. Ac mae mwy a mwy o wasanaethau lleol yn mynd i ddwylo'r sector preifat neu fudiadau.

Ym maes llawer o wasanaethau, mae'n mynd yn fwy a mwy anodd gwybod pwy sy'n atebol a dyna pam fod cynghorwyr lleol yn dal i fod mor bwysig, yn ffordd i ni gyrraedd at yr awdurdodau. Fel yn achos cymaint o bethau eraill, dim ond pan fyddan nhw wedi mynd y gwelwn ni golli'r cynghorau lleol go iawn.

Felly, mi allwn ni ddiolch i rai fel Haydn Lowtre am eu gwasanaeth a dangos ein bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd democratiaeth leol go iawn – trwy fynd i bleidleisio.



Mae Carwen Richards, disgybl Bl. 13 yn Ysgol Gyfun Llambled wedi derbyn y gwahoddiad i gario'r Fflagi Olympaidd. Bydd hi'n un o'r 8,000 o bobl ym Mhrydain sydd yn cael y fraint yma. Llongyfarchiadau mawr i ti ac efallai y clywn dy brofiad yn Clonc yn fuan.



“Dewch at eich gilydd i greu eich Pryd Pasg chi.”

Mae'n adeg dathlu'r Pasg. Os bydd teulu neu ffrindiau yn aros dros gyfnod y Pasg, mae'r bwyd bob amser yn ganolbwynt y dathlu.

Felly'r mis yma rwyf wedi crei pryd tri cwrs a fydd, rwy'n siŵr yn boblogaidd. Gyda chig oen yn goron ar y cinio dydd Sul sydd yn fendigedig ac ar ei orau dros gyfnod y Pasg. Mae'r dechreuwyd yn ysgafn ac yn hawdd, ac fe all gael ei baratoi ymlaen llaw. Mae'r pwddin yn ffefryn bob tro – diweddgllo da i'r pryd. Cofiwch y gyfrinach i 'Bryd y Pasg' yw paratoi ymlaen, digon o help llaw ac ymlacio a chael hwyl.

Pasg hapus,
Gareth

Salad eog wedi'i fygu. (Digon i chwech).

Cynhwysion.

- 1 llond llwy fwrdd o olew blas hadau pwmpen
- 1 llond llwy fwrdd o finegr gwin gwyn
- 2 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd
- ½ llwy de o siwgwr mân
- Halen a phupur
- 2 avocado wedi'u ciwbio
- 200 gm o eog wedi'i fygu
- 200 gm o gorgimwch (prawns)
- 1 pecyn o ddail salad – roced
- 1 lemwn wedi'i dorri'n 6 darn



Dull.

1. Cymysgwch yr olew, finegr a'r siwgwr ac ychwanegwch pupur a halen i flasau.
2. Rhannwch yr eog, y gorgimwch a'r avocado rhwng 6 o blatiau gydag addurn o'r dail roced a'r lemwn.
3. Gwasgarwch y gymysgedd olew dros y cyfan.

Coes Cig Oen wedi'i lenwi.

Cynhwysion

- 1 winwnsyn wedi'i dorri'n fân
- Ychydig o fenyn
- 5 owns o friwsion bara
- 5 owns o fricyll (apricots) sych wedi'u torri'n fân
- 5 owns o eirin sych (prunes) wedi'u torri'n fân
- Sudd a chroen un lemwn
- 50 gram o gnau pinwydd (pine nuts)
- 2 llond llwy fwrdd o berlysiau cymysg
- 1 ŵy
- Coes Cig oen (yr asgwrn wedi'i dynnu allan)

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200°C 400°F Nwy 6.
2. I greu y stwffin. Ffriwch y winwnsyn mewn menyn nes yn feddal. Rhowch mewn dysgl gyda'r bara, y ffrwythau, croen a'r sudd lemwn, cnau pîn, perlysiau, ŵy gyda halen a phupur i flasau.
3. Llenwch y goes cig oen â'r llenwad, a defnyddiwch ddarn o gordyn i ddal y cyfan yn eu lle. Rhowch mewn tun rhostio yn y ffwrn am ddeg munud yna trowch y gwres i lawr i 180°C / Fan 160°C. 350°F Nwy 4 a phobwch am 45 i 55 munud
4. Gweinwch gyda llysiau tymhorol y Pasg a saws cwrens coch.

Pwddin Pasg (Digon i 6)

Cynhwysion

- 100gram o flawd codi
- 125 gram o siwgwr brown
- 2 ŵy
- 1 banana wedi'i wasgu
- 50 gram o gnau pecan wedi'u darnio
- 1 llond llwy de o bowdwr pobi
- 1 llond llwy de o cinamon
- 125 gram o fenyn
- 125 gram o foron wedi'i gratio



Dull

1. Trowch y ffwrn i 180°C 160°F Nwy 4. Irwch 6 ddisgyl ramekin a rhowch ddarn o bapur pobi ar y gwaelod. Rhowch ar hambwrdd pobi.
2. Rhydyllwch y blawd, y powdwr a'r speis i bowlen, yna ychwanegwch y menyn, siwgwr a'r ŵyau. Cymysgwch yn dda, yna i mewn a'r banana, cnau a'r moro;n.
3. Rhenwch rhwng y potiau a phobwch am tua 20 – 25 munud. Trowch ar blatiau a gweinwch gyda 'Mascarpone' wedi'i flasau gyda vanilla a llaeth i greu ansawdd llac!

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921
☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO


**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allweddi a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled
☎ 01570 422893 / 422175

Cwrtnewydd

Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd

Drwy garedigrwydd Dewi a Sian Jones Blaenhirbant, Cwmsychpant bu plant y cylch yn ymweld a'i fferm ar adeg prysur iawn sef amser wyna. Bu'r plant yn gweld y defaid a'r wyn bach a'r da godro. Roedd y plant wrth eu bodd ynghanol yr holl anifeiliaid ac roedd gwen lydan fawr ar wynebau bob un ohonynt.

Roedd y bechgyn bach ar ben eu digon wrth iddynt gael eistedd ar gefn y 'Quad Bike' ar 'Bobcat'. Cyn mynd am adroedd Sian wedi paratoi te i ni i fwynhau, dyna beth oedd gwledd! Diolch yn fawr iddynt.

Bu'r plant yn lliwio 'ffram'i'w Mham ar gyfer Sul y Mamau. Rwyn siwr bod bob mam wrth ei bodd yn derbyn yr anrheg pert yma.

Bobol bach roedd 'na gyffro mawr yn y cylch ar y dydd mawrth cyn y gwyliau wrth i ni fwynhau chwilio am wyau pasg.

Roeddent wedi cael ei cuddio o amgylch yr ysgol ar plant yn gorfod ei chwilio. Buont yn chwilio ymhob twll a chornel ac erbyn y diwedd roedd pob plentyn wedi cael wyau pasg blasus. I de cawsom gacen pasg i fwynhau, dyna beth oedd joio!

Pob hwyl i'r plant bach fydd yn ein gadael ac yn dechrau ar ei hamser yn eu hysgolion newydd.

Os ydych am ymuno a ni yn y cylch rydym yn cwrdd yn Neuadd Ysgol Cwrtnewydd bob prynhawn dydd Mawrth am 1:30.

Mae yna groeso i famau, tadau, mamgu's a thadcu's, felly os ydych am ddod i gael clonc a chwpanaid o de ac i'r plant i gael chwarae dewch am dro atom. Am ragor o wynobaeth ffoniwch 01570 434 273.

Ysgol Cwrtnewydd

Cafwyd ymweliad gan Aled o 'Only Men Aloud' lle bu yn dysgu technegau canu i blant blwyddyn 5 a 6 Ysgolion Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd. Roedd y plant wedi mwynhau ac elwa tipyn o'r profiad.

Bu nifer fawr o'r plant yn cystadlu yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd â gynhaliwyd yng Nghwersyll yr Urdd, Llangrannog. Dyma'r canlyniadau:-

Gwaith Lluniadu 2D Bl. 2 ac iau - 2il Alaw Jones; Gwaith Lluniadu 2D Bl. 5 a 6 - 2il Aaron Gibbons; Gwaith Creadigol 3D Bl. 3 a 4 - 3ydd Carwyn Davies, Lois Jones, Nia Morgans, Lleucu Rees, Beca Jenkins a Hanna Davies; Print Lliw Bl. 3 a 4 - 2il Arwel Williams; Printiau Lliw Bl. 3 a 4 - 2il Ffion Williams.

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol eleni yng nghwmni plant Cylch Meithrin Drefach. Cafwyd sesiwn o ganu, stori, lliwio ac i orffen y bore bu pawb yn dawnsio twmpath. Roedd bob plentyn o'r ifancaf i'r hynaf wedi mwynhau. Yn ystod y prynhawn cyhoeddwyd enw

cymwynaswr y flwyddyn ac enwau enillwyr ein cystadleuthau. Cerys Pollock cafodd ei anrhydeddu yn cymwynaswriag y flwyddyn am ei ymroddiad tuag at fywyd ysgol a hefyd am fod mor ofalgar o'r plant. Llongyfarchiadau mawr i ti.

Beirnamad ein cystadleuthau gwaith llaw eleni oedd Mr Ward a dyma'r canlyniadau:-

Lliwio Meithrin a Derbyn - 1af Elan Jenkins; 2il Katy Moyes; 3ydd Megan Davies.

Lliwio Bl. 1 a 2 - 1af Lisa Jenkins; 2il Nathaniel Wroe; 3ydd Alaw Jones.

Lliwio Bl. 3 a 4 - 1af Nia Morgans; 2il Lois Jones; 3ydd Arwel Williams a Caitlin Gibbons.

Lliwio Bl. 5 a 6 - 1af Morgan James; 2il Madeleine Smith; 3ydd Cerys Pollock.

Llawysgrifen Bl. 1 a 2 - 1af Phoebe Prater; 2il Lisa Jenkins; 3ydd Luned Jones.

Llawysgrifen Bl. 3 a 4 - 1af Skye Binding; 2il Libby Waterman; 3ydd Beca Jenkins.

Llawysgrifen Bl. 5 a 6 - 1af Cerys Pollock; 2il Elin Davies; 3ydd Gethin Morgans.

Fel bob blwyddyn bu nifer fawr o blant yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Cafwyd cryn lwyddiant a dyma'r canlyniadau: Llefaru Unigol Bl. 2 ac iau - 3ydd Alaw Jones. Unawd Bl. 2 ac iau - 2il Alaw Jones. Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 - 3ydd Hanna Davies. Unawd Bl. 3 a 4 - 1af Nia Morgans. Cerdd Dant Bl. 3 a 4 - 2il Nia Morgans. Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 - Cerys Pollock. Alaw Werin Bl. 6 ac iau - Nia Morgans. Unawd Pres Bl. 6 ac iau - 1af Owen Schröder Deuawd Bl. 6 ac iau - 3ydd Lois Jones a Nia Morgans. Parti Llefaru Bl. 6 ac iau - 1af. Parti Unsain Bl. 6 ac iau - 1af

Yn dilyn y canlyniadau yma aeth Nia Morgans, Owen Schröder, Parti Unsain, Parti Llefaru a'r Gân Actol ymlaen i gynrychioli cylch Llanbed yn Eisteddfod y sir ym Mhonthrydfendigaid. Cafwyd diwrnod brwd iawn o gystadlu gyda Owen Schröder yn cipio'r wobwr gyntaf gyda'r Unawd Pres a'r Gân Actol yn ennill y safle cyntaf. Cipiodd y Parti Llefaru yr ail wobwr. Llongyfarchiadau mawr i bawb a phob lwc wrth gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mehefin.

Cynhelir noson o Bigion yr Eisteddfod i weld nifer o eitemau a soniwyd uchod yn neuadd yr ysgol nos Iau, 19eg o Ebrill am 7 o'r gloch. Croeso cynnes iawn i deuluoedd a ffrindiau'r ysgol i ymuno â ni. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at gostiau teithio i'r eisteddfod.

Bu Karen Roberts Swyddog Addysg Diogelwch Tân yn gwneud sesiynau dioglewch gyda holl blant yr ysgol. Roedd pawb wedi

mwynhau'r profiad ac wedi elwa o'r sgysiaid.

Mae plant blwyddyn 6 wedi bod yn ymweld âg Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan am ddiwrnod cyfan. Cafodd y plant gyfle i gael gwersi Ffrangeg, Technoleg a Gwyddoniaeth. Bydd y trefniad yma yn digwydd ddwy waith eto er mwyn i'r plant ddod yn gyfarwydd â'r ysgol erbyn mis Medi. Roedd y pedwar wedi mwynhau eu profiadau newydd ac yn edrych ymlaen i'r ymweliad nesaf.

Daeth Mr Lyn Rees i mewn i'r ysgol i sgwrsio gyda phlant y Cyfnod Sylfaen. Roedd y plant wedi creu holiadur yn seiliedig ar thema Ffermio. Daethant i ddeall mwy am fywyd ffermio drwy drafod am wyna, godro yn yr hen ddyddiau ac heddiw a gofalu ar ôl pheiriannau. Diolch iddo am roi o'i amser i ateb eu holl gwestiynau.

Braf yw coesawu Mrs Gwenyth Owens i'r ysgol fel Athrawes Fro am dymor yr haf. Rydym yn falch o'i chwmmi a'i harbenigaeth ac edrychwn ymlaen i fedru cydweithio gyda hi.

Clwb 100

Ionawr 2012

1af - Beca Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychbant; 2ail - Lyn Jenkins, Haulfryn, Rhydownen; 3ydd - Nia Morgans, Glwydwern, Gorsgoch; 4ydd - Delyth Richards, Llain, Rhydlewis.

Chwefror 2012

1af - Eleri Jenkins, Bryngolau, Alltyblaca; 2ail - Gareth a Mary Davies, Maesglas, Drefach; 3ydd - Glesni Rees, Caeronnen, Penffordd; 4ydd - Archie Paterson c/o Brynseion, Cwrtnewydd

Mawrth 2012




1af - Ray Jenkins, Beiligwyn, Capel Dewi; 2ail - Anne Evenden, Gwalia, Cwrtnewydd; 3ydd - Beca Alwyn, Penwac, Llandysul; 4ydd - Dafydd Davies, Gerynant, Drefach.



Cerys Pollock cafodd ei anrhydeddu yn cymwynaswriag y flwyddyn yn Ysgol Cwrtnewydd.



Llongyfarchiadau Cymru ar y Gamp Lawn. Os ewch chi ar YOU TUBE cewch glywed fy nghân CORON DRIPHLYG. Yma, heddiw, arwr rygbi'r degawd diwethaf yw'r testun. Mwynhewch!



Shane Williams

Piano

Chwaraewr o fry fu'n Shane bach ni, yn dartio fel gwenynen, ei gryd coch ar

6 dan am fynd ar y bla'n Y llamwr fel llysywen! Y llamwr fel llysy...wen y llamwr

12 fel llysywen! Pwy obaith i'r bois g'al dal ei goes, wrth iddo geisio sgorio?

18 I'r chwith neu i'r dde, fe ffeindiodd le, y gwibiwr wnaeth eu llorio! y gwibiwr

23 wnaeth eu llorio, y gwibiwr wnaeth eu llorio! Fe gofiwn ni, Bobl Cymru,

29 am yr as -gellwr chwimwth; Mor gyflym a'r gwynt, fel Gerald gynt, yn ffrwydro

34 yn ddisymwth! yn ffrwydro yn ddisymwth, yn ffrwydro yn ddisymwth!

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

5	4	9	6		
				6	2
	3	2	5	7	
		6			7
1		7	9		8
	5			9	
			8	7	4
4		8			
		6	4	8	3

Atebion Swdocw mis Mawrth:

Llongyfarchiadau i **Ellie Davies, Golygfa'r Llyn, Abergwili**, a diolch i bawb arall am gystadlu: Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder; Betty Prytherch, Tyngrug, Llanllwni; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Bryn Hughes, Cwmere, Felinfach; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder a Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder.

6	7	5	2	8	3	1	9	4
2	1	8	9	4	6	5	3	7
9	4	3	7	1	5	6	8	2
3	2	1	4	6	8	7	5	9
8	5	7	3	9	2	4	6	1
4	9	6	1	5	7	3	2	8
7	8	9	6	3	4	2	1	5
5	3	2	8	7	1	9	4	6
1	6	4	5	2	9	8	7	3

Llanybydder

Merched y Wawr Llanybydder a'r Fro

Ar nos Lun, Chwefror 27ain, Festri Capel Aberduar oedd y lle i fod. Yn ogystal âg aelodau'r gangen, daeth nifer o aelodau o ganghennau eraill, ffrindiau yn ogystal â rhyw ddysen o ddynion mentrus i fwynhau gwledd o gyflwyniad, sef 'Dim ond Dwy' gan Llio Silyn a Rhian Morgan. Gyda Gŵyl Dewi wrth y drws, roedd yn hyfryd gweld y ddwy yn gwisgo'r wisg draddodiadol Gymreig ac yn ôl eu geiriau wedi dod i dref y Ceffylau i'n diddori. Thema'r noson oedd rôl y fam, ddoe ac heddiw. Bu'r ddwy yn sôn am fywyd merch o'r dyddiau caru, priodi, rhoi genedigaeth a'r profiadau yng nghlwm â fywyd beunyddiol. Yng nghanol yr hunllef o siopa, glanhau, coginio, golchi, magu plant, cadw cartref a swydd bydd menyw yn bruddwydio am frêc ar ryw ynys bellennig yn ystod yr eiliadau prin pan nad yw'n ymladd gyda'r hwfer bondigrybwyll! Aethant ymlaen i sôn yn llawn hiwmor am y fenyw 50+ yn gofyn iddi ei hun. Lle'r aeth y ferch dygatddu hardd? Mae dynes ganol oed yn ddoeth er bod ganddi llond le o rychiau a'r bol wedi gostwng yn ogystal â phopeth arall! Cawsom ni'r gynulleidfa gyfle i ymuno yn yr hwyl trwy ganu nifer o ganeuon traddodiadol fel – 'Nawr lanciau rhoddwn glôd / Y mae'r Gwanwyn wedi dod...' Yng nghanol yr holl chwerthin a hwyl y noson, cawsom nifer o gyfeiriadau tuag at berlau o waith beirdd fel Waldo a'i gerdd gofiadwy – Cofio. Yna cawn esiampl o waith Llio Silyn a wnaethom i gyd ei fwynhau gymaint.

Mam
Ein Mam, yr hon wyt yn y gegin
Sancteiddir dy lasagne
Deled dy olchi
Gwneler dy smwddio
Megis yn y sosban
Felly yn y ffrimpan hefyd
Dyro i ni heddiw ein Mother's
Pride
A maddau i mi fy sgrechian
Fel y maddeuwn ninnau i'r
sgrechwyr
Ac nac arwain ni i Operau Sebon
Eithr gwared ni rhag cael ffag
Canys eiddot ti yw'r Hwfer
Y ffriji a'r ffriisyr
Yr ŵy a'r chips.

Amen.

Wrth gyflwyno darnau o waith fel yma oes ryfedd ein bod wedi chwerthin ac wedi mwynhau mas draw! Yn ogystal â chyflwyno i ni Rhian a Llio, diolchodd Ann Milcoy iddynt am ddod atom ac am wneud y noson y fath lwyddiant. Diweddwyd trwy ganu ein hanthem Genedlaethol, Hen Wlad Fy Nhadau, ac yna cafodd bawb banded a chacenau cartref blasus cyn mynd adref.

Morwyn

Llongyfarchiadau gwresog i Cerys Jones, Gorlan ar gael ei dewis i fod yn forwyn i Frenhines C.Ff. I. Ceredigion am y flwyddyn 2012 – 2013. Mwynha dy flwyddyn.

Diolch

Dymuna Ogwen, 2 Heol y Gaer ddiolch am y cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Cynhaliwyd 'Sale of Work' flynyddol Aberduar yn y Festri ar nos Fercher, Mawrth 14eg, pan ddaeth nifer o aelodau a ffrindiau ynghyd i gefnogi ac i brynu o'r nwyddau o'r stondinau amrywiol.

Llywyddwyd y noson gan y Parch Jill Tomos, ac fe'i hgorwyd yn swyddogol gan John Owen Morgan, Llambod. Cafwyd y pleser hefyd o gwmni ei briod Morwen.

Yn ei anerchiad diddorol soniodd John am ei gysylltiad clos a'r achos yn Aberduar ac am ddylanwadau bore oes o dan weinidogaeth y Parchedig a Mrs W H Davies. Soniodd gyda anwylydeb am ei athrawesau yn yr ysgol Sul sef Miss Humphries a Miss Winnie Roberts ac am y modd y byddai'n cerdded gyda'i frawd o Bencarreg i fynychu'r Ysgol Sul a'r oedfaon yn y Capel.

Cafwyd noson hyfryd o gymdeithasu ac fe godwyd arian sylweddol i goffrau'r Eglwys.

Diolch i John am ei rodd hael, ac i bawb am gyd-weithio, gyda'r trefniadau i sicrhau llwyddiant y noson.

Gwellhad buan

Gwellhad buan i Rhys Lewis, Gwernyfed a Mrs Eirlys Thomas, Awelfa sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Eglwys Sant Pedr

Mewn cyfarfod Mehefin diwethaf, penderfynodd aelodau'r Eglwys, fod angen meddwl am ffordd o gael mwy o aelodau i ddod i'r Eglwys, oherwydd dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer yr aelodau sy'n mynychu'r cwrdd wedi lleihau, am amryw o resymau.

Penderfynwyd ein bod ni yn mynd i wneud newidiadau i un gwasanaeth bob mis, sef yr ail Sul.

Y syniad tu ol i'r cwrdd arbennig yma, yw fod yr aelodau yn mynd i ysgrifennu a chyflwyno'r gwasnaeth, heb ddefnyddio ein llyfrau gwasanaeth arferol.

Y gobaith oedd ein bod ni yn mynd i gael gwasanaeth modern, teuluol, a fod y gynulleidfa yn mynd i gael cymeryd rhan ymarferol ymhob cwrdd.

Rydym erbyn hyn wedi cael sawl gwasanaeth newydd ar amryw o

destynau, megis gwasanaeth Jean a Susan, yn son am gariad, a pha mor bwysig yw dangos caraid at gyd-ddyn, a gwasanaeth Eleri a Kay yn edrych ar stori'r ystywll.

Gwasanaeth y gair Dydd Sul 12fed Chwefror- cawsom gwasanaeth gan Jean a Susan ar y testun cyfeillgarwch.

I ddechrau'r gwasanaeth gwnaeth Diana rhoi sgwrs arbennig i ni am bwysigrwydd edrych ar ôl ein ffrindiau. Gwnaeth pawb mwynhau'r sgwrs yma yn fawr iawn. Gwnaeth Elain a Sasha gweddio. Hyfryd oedd gweld y merched yn cymeryd rhan! Gwnaeth Heather, Eurwyn a Lewis hefyd gymeryd rhan, diolch iddynt am eu gwaith. Diolch i Jean a Susan am drefnu'r cwrdd, i bawb a gymerodd rhan, ac i bawb a ddaeth i'r cwrdd.

Croeso cynnes i bawb i ddod i ymuno gyda ni yn yr Eglwys bob dydd Sul, rydym o hyd yn falch croesawu hen ffrindiau a ffrindiau newydd!

Gwasanaeth y gair Dydd Sul 11eg Mawrth - cawsom gwasnaeth gan Eleri, ar y thema 'Creu calon pur'. Caswom anerchiad gan y Ficer, a gwnaeth Lewis a Avril cyflwyno darlleniadau o'r Beibl. Ar yr organ roedd Susan, a chanodd y gynulleidfa 3 cân cyfarwydd a un cân newydd. Braf oedd gweld Natasha a Sasha Evans, mam a merch yn cymeryd rhan, a hefyd Rhian a Elain Williams, mam a merch arall! Gwnaeth Eleri anerchiad or pulpud yn seiliedig ar Ioan 2, 13-22. Dangosodd Eleri lluniau or Beibl i'r gynulleidfa i ategu at y pwyntiau roedd yn eu gwneud. Roedd Eurwin, mewn gwisg yn actio rhan Moses, a chyflwynodd darn yn seiliedig ar y 10 Gorchymun.

Diolch i Eleri am drefnu'r cwrdd, i bawb a gymerodd rhan, ac i bawb a ddaeth i'r cwrdd.

Dyma amserau ein gwasanaethau ni nawr:

Sul cyntaf - Cymun bendigaid 8.30. Ail Sul - Gwasanaeth y gair 9.30. Trydydd Sul - Cymun bendigaid 11.00. Pedwerydd Sul - Cymun bendigaid 8.30.

Rydym yn lwcus iawn yn yr Eglwys, fod Diana Harper yn prynu, gosod ac edrych ar ôl popeth i wneud ag addurno'r Eglwys gyda blodau bob ddydd Sul.

Mae llawer o aelodau yn hoffi gosod blodau yn yr Eglwys ar adegau arbennig o'r flwyddyn, fel dyddiad colli anwylyn, penblwydd priodas ayyb. Os ydych am wneud hyn, neu ein helpu ni i wneud yn siwr fod blodau prydferth yn yr Eglwys trwy'r amser, siaradwch a Diana ar 481 402, er mwyn cyfrannu yn ariannol at y blodau.

Byddwn yn addurno'r Eglwys at Y Pasg am 3 o'gloch 6ed Ebrill, croeso cynnes i bawb i ddod i'n

cynorthwyo.

Os ydych am fwy o wybodaeth am unrhyw beth i wneud a bywyd yr Eglwys, cysylltwch a'n Ficer, sef y Parchedig Suzy Bale.

Côr Lleisiau'r Werin

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn brysur ofnadwy i ni fel côr, gan ein bod ni wedi bod yn canu mewn cyngherddau yn Aberhonddu ac yn Peniel, a hefyd bum yn canu yng Nghwm Aur, Llanybydder.

Yn ymarfer nos Iau, 15fed Chwefror, braf oedd clywed fod Nans yn gwella'n iawn o'i llawdriniaeth. Hefyd dymunwyd yn dda i Elin, wyres Bet, gan iddi orfod mynd i'r ysbyty. Dymunwyd yn dda i Joan gan fod hi a Percy yn mynd allan i Awstralia i weld ei mab Alun.

Nos Sadwrn, 25ain Chwefror, aethom i Westy'r Castell, Aberhonddu, i berfformio ar gyfer Cymdeithas Cymraeg Aberhonddu yn ei swper Gŵyl Ddewi.

Cannodd y côr 14 o ganeuon yn cynnwys 'Cwm Alltcafán', a pherfformiad 1af y cor o 'All that jazz'! Perfformiodd Mary, Ffosfald, adroddiad digri a oedd yn sôn am brofiad gŵr pan mae ei wraig yn gwneud y 'spring clean'. Braf oedd clywed y neuadd yn llawn chwerthin wrth iddi adrodd! Gwnaeth Menna a Kay sgets am ddwy fenyw yn cwrdd a'u gilydd yn y parc, wrth i'r ddwy o nhw mynd a'u 'cwn arbennig' am dro! Roedd pawb yn chwerthin wrth gweld Menna yn cerdded o gwmpas gyda'i 'chi' dychmygol, a hefyd pan gwnaeth Kay tynnu 'Collie' allan o'i basged, ond nid 'Collie' iawn oedd ganddi, ond 'Cauli' - sef Cauliflower!! Ar ddiwedd y nos roedd y gynulleidfa wedi mwynhau'r gyngerdd, ac roedd y côr wedi mwynhau perfformio. Diolch i'r gymdeithas am y croeso ac am y bwyd a chafodd y côr cyn perfformio.

Nos Iau, 1af Mawrth buodd y côr yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yng Nghwm Aur, Llanybydder.

Braf oedd canu amrywiaeth o ganeuon traddodiadol a modern i ddathlu dydd ein nawddsant. Diolch i staff Gwm Aur am y croeso, ac am y lluniaeth ar ddiwedd y noson.

Buodd y côr lawr ym Mheniel, nos Iau 8fed Chwefror, ar wahoddiad sefydliad 'WI' y pentref.

Gwnaeth y côr rhaglen llawn o ganeuon modern a thraddodiadol, ac roedd y gynulleidfa wedi mwynhau'r rhaglen.

Rydym fel côr yn canu un can, sef 'Ffalabalam' er cof am Elwyn Davies, a'r côr merched roedd yn ei arwain yn pentref Llanybydder. Ond yn Peniel, gwnasom canu'r gn yma yn arbennig i gyn aelod o'r côr sydd nawr yn byw yn Peniel, sef Dalvina gynt o 'Swyddfa bost' Llanybydder. Diolchodd Bet, ar ran y côr i'r WI


Llanybydder

am ddarparu bwyd hyfryd i'r côr ar ddiwedd y nos.

Braf oedd clywed fod wyres Gwyneth, Nia, Glydwrn wedi gwneud yn dda yn Eisteddfod cylch yr urdd, wrth iddi ennill yr unawd. Da iawn i bob un o'r plant a gymerodd rhan yn yr eisteddfod cylch.

Cynhaliodd y côr, ynghyd ac aelodau Eglwys Llanybydder, cyngerdd Nadoligaidd yn Eglwys Llanybydder ar yr 11eg Rhagfyr 2011, ac ar nos Iau, 15fed Chwefror, braf oedd gallu cyflwyno sic o £450 i Sue Mullock nyrs MS o Morriston. Rydym fel cor yn falch iawn ein bod wedi gallu cefnogi'r achos yma. Diolch i bawb a gymerodd rhan yn y gyngerdd, i aelodau'r Eglwys ac i bawb a ddaeth i'n cefnogi ar y noson.

Dymunwyd penblwydd hapus i Gwenda, a roedd wedi dathlu penblwydd arbennig. Rhoddwyd llongyfarchiadau Sioned. Glantren-fach, am ei gwaith ar y cyfryngau ar y diwrnod yma, fel 'ohebw'r am y dydd'. Mwy o hanes y côr mis nesaf!



Clwb Clonc

Ebrill 2012

£25 rhif 401 :

Ffion Rees,
Llys y Wawr, Llanllwni

£20 rhif 386:

Mrs Mair Potter,
Rhoslwyn, Cwmsychpant

£15 rhif 190 :

Mrs Helena Gregson,
Werna, Cwmann

£10 rhif 432 :

Mrs Olga Thomas,
Brynderw, Cwrtnewydd

£10 rhif 463 :

Mrs Nia Wyn Williams,
Bwlch y ffin, Silian

£10 rhif 258 :

Mrs Enid Jones,
Dolhyfryd, Cellan

Rhifyn mis Mai

Yn y Siopau

Mai 3ydd

Erthyglau, Newyddion
a Llundiau i law erbyn

Ebrill 23ain



Côr Lleisiau'r Werin ac Eglwys Llanybydder.

Cynhaliodd y côr, ynghyd ac Eglwys Llanybydder, cyngerdd Nadoligaidd yn Eglwys Llanybydder ar yr 11eg Rhagfyr 2011, ac ar nos Iau, 15fed Chwefror, braf oedd gallu cyflwyno sic o £450 i Sue Mullock nyrs MS o Morriston. Yn y llun gwelwch, o'r chwith i dde:

Y Parchedig Suzy Bale, Ficer Eglwys Llanybydder ac mae'n aelod o Gôr Lleisiau'r Werin Sue Mullock, nyrs MS Kay Davies, Cadeiryddes y Côr ac yn aelod o'r Eglwys Elonwy Davies, arweinyddes y côr Avril Jones, trysorydd yr Eglwys.



Sefydliad y Merched Llanybydder yn cyflwyno sic o £200 i Heulwen Jones (Gweithwraig Estyn Allan) a Bronwen Burgess (Cydllynydd) o Ganolfan Deuluol Llanybydder, arian a godwyd ganddynt ar ei stondyn yn y ffair Nadolig a gynhaliwyd yn y Llew Du Llanybydder fis Rhagfyr diwethaf. Yn y llun hefyd y mae Mrs Heather Davies (Llywydd) a Mrs Rosemary Parry (Is-Lywydd) ynghyd ag aelodau'r gangen oedd yn bresennol.



John Owen Morgan a'i wraig Morwen a wnaeth agor arwerthiant flynyddol Capel Aberduar nos Fercher 14eg o Fawrth. Hefyd yn y llun o'r chwith mae Jill Tomos (Gweinidog), Ogwen Evans (Trysoryddes) a Hannilia Court (Ysgrifenyddes)

YSWIRIANT FUW

**Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai**



Arbenigedd lleol
Polisiâu at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361

neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW,**
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n ddiwylliaeth a'i reoli gan
Awdurdod y Gwasanaethau Fferm, ariannu'n ddwyddynol gyffwrdd yswiriant,
o dan Ffif Cymru, 508035

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.

Darparu

Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

Gwersi Piano

gan athrawes brofiadol



Cysyllter ag

Ann Bowen Morgan

01570 422413

DAI MECANIC

Arbenigwr mewn:

- Gwasanaethu a thrwsio beiciau ATV
- Cynnal a chadw cyfarpar pŵer

DAI JONES

07791 840 500



01570 434238 07767 676348

Clwb Cyri

Bob nos Wener
6.30-8.30yh
£5 am gyri o'ch dewis,
reis, sgldion a
bara naan
Take Away neu
bwyta mewn

Cwis

Nos Iau cyntaf bob
mis
8 o'r gloch
Bwyd yn rhan o'r
noson
Timau:
dim mwy na 6

Llanllwni

Ymddiheuriadau am y testun isod a ymddangosodd yn anghywir y mis diwethaf:

Diolch

Dymuna Lynwen, Sylvia a theulu'r diweddar Ann Jones, Ger-y-Bryn, ddiolch i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu colled trist. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd er cof am Ann.

Dathlu Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd

Cynhaliwyd gwasanaeth Dathlu Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yng Nghapel Nonni ar Fawrth 2il. Croesawyd pawb yn gynnes gan Sallie Davies. Bu gwragedd Bethel, Drefach; Brynteg; Capel Nonni; Seion, Cwrtnewydd ac Eglwysi Llanllwni a Llanwenog yn cymryd rhan.

Cafwyd anerchiad bwrpasol gan y Parchedig Rheinalt Davies ar y thema 'Boed i Gyfiawnder lwyddo'. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Valerie Jones. Diolch i Janet Howells am ddosbarthu rhaglenni a threfnu'r darlenniadau ar gyfer y gwasanaeth.

Ysgol Llanllwni

Croeso i Chloe a Kiera Beynon atom. Mae'r ddwy wedi setlo'n dda yn eu dosbarthiadau newydd.

Cafwyd fore hwylus pan ddaeth cwmni Speedmark i'r ysgol. Cafodd pawb gyfle i gicio at y gôl. Roedd y gôl yn dangos cyflymder y gic. Ar ôl dipyn o ymarfer cafwyd gystadleuaeth gicio i bob blwyddyn. Casglodd y plant noddwyr ac yna derbyn gwobrau.

Cynhaliwyd ein Eisteddfod Ysgol ar Ddydd Gŵyl Dewi. Roedd yn braf gweld y plant yn eu gwisgoedd Gymreig ac fe ddaeth Tim Jones heibio i dynnu lluniau.

Beirniad ein Eisteddfod eleni oedd Mrs Morfudd Rees. Diolchwn iddi am ddod atom a hynny ar fyr rybudd. Cafwyd brynhawn o gystadlu brwd rhwng y tri tîm – Hendre, Talog a Teifi gan ganu, llefaru, actio, dawnio, dweud jôc, celf a llawysgrifen. Tîm Talog a ddaeth yn fuddugol, ac fe gyflwynwyd y darian

i'n capteiniaid sef Siriol a Jerusha. Gwerthfawrognw y gefnogaeth dda a gawsom gan rieni a ffrindiau.

Bu nifer o'r plant yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Llanbed ar ddydd Iau, Mawrth 8fed. Da iawn chi blant a aeth i'r rhagbrofion yn y bore. Llongyfarchiadau i Ffion Harries am gael llwyfan yn yr Unawd i blant Blwyddyn 2 ac Iau, ac yna dod yn drydydd yn y prynhawn. Da iawn ti Ffion. Cafodd y Parti Unsain drydydd a da iawn chi blant fu'n cystadlu yn y grŵp Llefaru.

Mae plant Blwyddyn 6 a fydd yn dechrau yn Ysgol Gyfun Llanbed wedi bod ar ddiwrnodau pontio yn Llanbed gan wneud nifer o weithgareddau diddorol. Diolch i Mari Dalis-Davies am drefnu hyn iddynt.

Bu'r Adran Iau i gyd yn cystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad yr Urdd yn Llanbed brynhawn Gwener, Mawrth 16fed.

Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus yn yr ysgol ar nos Wener, Mawrth 23ain pan gafwyd adloniant graenus gan blant yr ysgol a'r Clwb Ffermwyr Ifanc. Croesawyd y gynulleidfa gan Mrs. Marion Howells, Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Ifan Davies, Abercwm ond yn anffodus ni allodd Mrs. Davies fod yn bresennol. Cyflwynwyd y llywydd gan Mrs. Bethan Thomas. Dywedodd Eirlys Davies anerchiad ar ran ei rhieni. Diolch iddynt am y rhodd haelionus tuag at gronfa'r ysgol. Cyflwynodd Sinead, Alwena a Mared botel a blodau i Mr Davies ac Eirlys Davies. Disgyblion Blwyddyn 6 a fu'n arwain y noson. Diolch i bawb a fu'n helpu ac a gefnogodd y noson.

Mae rhai o'r Staff wedi derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn ddiweddar gan dderbyn dystysgrifau.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mawrth:-

£10.00 – 106 – Eirwyn Evans, Dulais, Llanllwni. £5.00 – 90 – Keith a Meinir Evans, Brynceirch, Llanllwni. £2.50 – 137 – Huw Davies, Bryndolau, Brynteg. £2.50 – 191 – Hilary Ablett, Llanllwni. £2.50 – 104 – Mathew Williams, Clyniau, New Inn.



C.F.F.I Llanllwni

Braf oedd gweld neuadd Ysgol Cae'r Felin, Pencader yn llawn yn ein cyngerdd blynyddol a gafodd ei gynnal ar nos Wener 2 o Fawrth 2012. Cafwyd noson llawn hwyl a sbri yng nghwmni yr aelodau a'r gynulleidfa yn mwynhau gweld perfformiad o'm Pantomeim 'Palvalova Paxo'. Diolch i Mr a Mrs Jones, Tirlan am fod yn lywyddion y noson.

Cynhaliwyd Diwrnod Gwaith Maes y Sir eleni ar ddydd Sadwrn, 24ain o Fawrth. Braf oedd gweld Anwen Jones ac Ifor Jones yn cystadlu am stocman Iau y Sir a llongyfarchiadau i Anwen am ddod yn ail ac i Ifor am ddod yn drydydd. Llongyfarchiadau i Besan Jones, Sara Thomas, Miriam Cashel a Meryl Davies am ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Arddangosfa Ciwb y Sir. Nôd y gystadleuaeth oedd creu 5 wahanol fath o waith creft ar y thema Gêmau Olympaidd ac ei arddangos mewn arddangosfa. Da iawn chi gyd a phob lwc yn y gystadleuaeth ar lefel Cymru yn Aberhonddu ym mis Ebrill.

Eisteddfod Ffynnonbedr



Enillwyr seremoni cadeirio am ysgrifennu storiâu Cymraeg - Grace, Tegan, Elan, Zoe a Catrin



Enillwyr seremoni cadeirio am ysgrifennu storiâu Saesneg yn eisteddfod Ysgol Ffynnonbedr - Menna, Theo, Ruth, Joseph ac Austin



Capteiniaid Eisteddfod Ysgol Ffynnonbedr gyda un o'r beirniaid Gill Hearne a Chadeiryddes y Llywodraethwyr Elen Page. Ty Pedr oedd yn fuddugol ar ddiwedd y dydd.

Ffarmers

Gŵyl y Gwanwyn 2012 yn Ffarmers

Cynhelir Gŵyl y Gwanwyn yn Ffarmers ar y 26ain o Fai eleni i ddathlu bywyd cymunedol yr ardal leol, ac fe fydd amrywiaeth arbennig o weithgareddau a digwyddiadau ar eich cyfer. Bydd yna arddangosfeydd ac arddangosiadau o grefftâu a sgiliau cefn gwlad, gweithgareddau i'r plant, bydd Band Arian Rhydaman, Dawnsywyr Penrhyd a 'Jac y Do' yn ymuno a ni, a llawer mwy!. Felly, rhwch nodyn yn eich dyddiadur nawr yn barod -ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf o Clonc. Mae'r cyfan yn bosibl trwy i ni dderbyn nawdd ariannol ar gyfer y digwyddiad. Derbyniwyd nawdd o £1,445.52 drwy gynllun Dathlu Diwylliant sy'n rhan o brosiect Canolbwyntiau Arloesol a gyllidir trwy Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Wel sut mae ffrindiau? Gobeithio eich bod chi gyd yn iawn, ac yn mwynhau mas draw yn yr haul braf yma, ac efallai wedi bod yn gwneud llawer o bethau cyffrous yn heulwen mis Mawrth. Y penwythnos diwethaf mi fues i a fy ffrind Caradog y Crwban yn bola heulo a golchi ein cregyn ar draeth braf Cei Newydd. Roedd yr haul yn grasboeth, felly lwcus iawn fy mod wedi mynd a'm sbectol ac eli haul. Cofiwch blant i ddefnyddio digon o eli haul pan rydych allan yn yr haul

Wel er bod y tywydd wedi bod yn braf i chwarae tu fas, mi wnaeth nifer fawr ohonoch liwio lluniau bendigedig i mi y mis yma. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth ddanfôn eu lluniau ataf ond yn enwedig i Iago Gwyn o Criccieth, Ellie Lona Gorman o Benparcau, Jac Hockenhull o Dregaron, Lisa Eurgain Jenkins a Luned Haf o Gwmsychpant a Gwenllian Llwyd o Lambed. Y llun wnaeth fy mhlesio orau'r mis hwn yw un lliwgar Llŷr Rees, Rhosdir, Bwlchfadfa - da iawn ti.

Erbyn i rifyn mis nesaf Clonc gael ei gyhoeddi mi fydd llawer ohonoch wedi bod yn bwyta eich wyau pasg siocled, felly beth am i chi fynd ati i greu wy pasg arbennig i Lincyn Loncyn.


Ta ta tan toc.



Enillydd
y mis!

Llŷr
Rees

Wy Pasg



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



Pentre-cwrt, Cwrt-sart (41)

Yn chwedl Culhwch ac Olwen ceir disgrifiad cryno o ddull cynnar o amaethu, dull o amaethu a elwir yn ddull torri a llosgi. Dyma grynodeb o'r rhan honno o'r chwedl sy'n coffáu'r arfer. Mae Culhwch am briodi ag Olwen, merch Ysbaddaden Bencawr, ond yn gyntaf rhaid i Culhwch gyflawni nifer o dasgiau. Y dasg gyntaf y mae Ysbaddaden am iddo'i chyflawni yw hyn ac mae'n holi Culhwch: 'A weli di'r llwyn mawr draw? Fe fynnaf ei ddiwreiddio o'r ddaear a'i losgi ar wyneb y tir hyd oni fyddo golosg hwnnw a'i ludw yn dail iddo; a'i aredig a'i hau nes y byddo'n aeddfed yn y bore erbyn amser codiad y gwllith...'

Disgrifio dull o amaethu a oedd mewn grym yn ystod yr Oesoedd Tywyll a wna'r darn hwn o'r chwedl. Byddai ôl y clirio i'w weld ar unwaith a byddai'r tir yn cael ei blannu a'i ailblannu am rai blynyddoedd tan i'w ffrwythlondeb bylu. Ac unwaith y byddai'r tir wedi ei adfeddiannu drachefn gan y fforest, byddai'r un broses yn gallu digwydd eto. Disgrifir hyn mewn rhan arall o'r un chwedl pan ddywed Tylluan Cwm Cawlwyd: 'Pan ddeuthum i yma gyntaf yr oedd y cwm mawr a welch yn ddyffryn coed. Ac fe ddaeth cenhedlaeth o ddynion iddo ac fe'i difawyd. Ac fe dyfodd ynddo ail dyfiant coed, a hwn yw'r trydydd tyfiant.'

Noda Gerallt Gymro yntau (c. 1146-1223) ddiwydrwydd mynachod a allai droi coedwig dderi yn gae ŷd ac yn sicr cafodd Urdd y Sistersiaid (y Mynachod Gwynion) effaith barhaol ar glirio'r fforestydd drwy asartio, sef clirio'r fforest i dibenion amaethyddol. Nid oedd asartio yn ddull gwahanol iawn i'r dull torri a llosgi, ond gan mai bwriad asartio oedd diogelu ffermwriaeth sefydlog, roedd y clirio yn llawer mwy trylwyr a pharhaol. Gwnaeth Mynaich Gwynion Abaty Nedd ymdrechion glew i ddiffio gwylltlineb coediog yr ardal honno a choffeir hynny yn yr enw Cwrt-sart (1296).

Mae'r elfen gyntaf yn Cwrt-sart yn digwydd yn gyson yn ne Cymru i ddynodi fferm sy'n eiddo i fynachlog ac yn cyfateb, felly, i'r Saesneg grange. Ac roedd Cwrt-sart, Cwrtycarnau, Cwrtthydhir a Cwrtbetws oll yn ffermydd a oedd yn eiddo i Abaty Nedd. Mae'r ail elfen yn Cwrt-sart yn dalfyriad o derm cyfreithiol Saesneg assart sy'n tarddu, drwy'r Ffrangeg o'r Lladin exartium sef tir a enillwyd trwy glirio coed.

Yng Ngheredigion, mae'r ail elfen yn yr enw Pentre-cwrt yn cyfeirio at dir a oedd yn eiddo i Abaty Hendy-gwyn ar Daf.

Bu'r Normaniaid yn ddiwyd yn cymhwyso asartio i ddibenion milwrol yn Sir Gaerfyrddin. Roeddent yn ofni ymosodiadau dirybudd gan derfysgwyr a gâi loches yn y coedwigoedd. Yn 1223 gorchmynodd Harri'r III dorri coedwigoedd er mwyn sicrhau digelwch marsiandwyr ac eraill a oedd yn teithio i drefi Caerfyrddin ac Aberteifi. Yn ddiweddarach yn y ganrif honno, eto ar orchymyn y brenin, aeth yr abadau ati fel lladd nadredd i asartio am fod lladron a llofruddwyr a phob math o ddrwgweithredwyr eraill a oedd yn peryglu undod y deyrnas yn llochesu yn y coedwigoedd. Yn 1257, yn ôl mynachod Talyllchau, ymladdwyd brwydr ffyrnig yn nyfnderoedd Coed Llathen (Coed Llangathen) rhwng codiad haul a chanol dydd. Prin yw'r manylion ond mae'n ddryll o dystiolaeth o'r defnydd manteisiol a wnaed o goedwigoedd gan y Cymry.

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl
neu dynnu lluniau?*

*Hoffech chi weinyddu'r wefan?
Neu beth am waith dylunio?*

*Rydym yn chwilio am swyddogion
hysbysebu a swyddogion
gwerthiant.*


*Allech chi sbario awr y mis wrth
ymuno â'r criw ffyddlon sy'n
plygu Clonc?*

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd
Busnes er mwyn cynnig eich
gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion 2012



Unawd Merched Bl. 7, 8 a 9 –
3ydd Lleucu Ifans, Aelwyd Llambled




Unawd Piano Bl. 7 – 9 – 3ydd
Gareth Jones, Ysgol Gyfun Llambled



Unawd Bechgyn Bl. 7 – 9 – 1af;
Llefaru Unigol Bl. 7 – 9 – 2il; Cyflwyno
Alaw Werin Bl. 7 – 9 – 2il Unawd Cerdd
Dant Bl. 7 – 9 – 3ydd - Meirion Siôn
Thomas, Aelwyd Llambled



Llefaru Unigol Bl. 10 a dan 19 oed
– 3ydd a Unawd o Sioe Gerdd Bl.
10 a dan 19 oed – 1af Lowri Elen,
Aelwyd Llambled



Unawd Bechgyn Bl. 10 a dan
19 oed – Dewi Uridge, Aelwyd
Llambled



Cyflwyno Alaw Werin bl. 10 a dan
19 oed – 2il Gwawr Hatcher, Aelwyd
Llambled



Grŵp Llefaru Bl. 9 ac Iau [Adran] – 1af Aelwyd Llambled



Grŵp Llefaru Bl. 10 a dan 19 oed – 1af Ysgol Gyfun Llambled



Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo [neu gyfuniad] Bl. 6 ac Iau – 1af
Ffynnonbedr



Deuawd Bl. 7 – 9 – 3ydd Natalie Plant a Meirion Siôn, Aelwyd Llambled.



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau – 2il Ysgol Cwrtnewydd

Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion 2012



Unawd Bl. 2 ac Iau – 1af a Llefaru Bl. 2 ac Iau – 3ydd Ffion Davies, Ysgol Ffynnonbedr



Llefaru Bl. 3 a 4 – 3ydd a Alaw Werin Bl. 6 ac Iau – 3ydd Elan Jones, Ysgol Ffynnonbedr



Unawd Bl. 5 a 6 – 2il, Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6 – 3ydd, Unawd Llinynnol Bl. 6 ac Iau – 2il Charlotte Saunders, Ysgol Ffynnonbedr



Unawd Chwythbrennau Bl. 6 ac Iau – 2il Beci Harrison, Ysgol Carreg Hirfaen



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau i ddysgwyr – 3ydd Ffynnonbedr



Deuawd Bl. 6 ac Iau – 1af Charlotte a Joseph Saunders, Ysgol Ffynnonbedr. Hefyd, cafodd Charlotte 2il am ddawnsio disgo Bl. 6 ac Iau.



Unawd Pres Bl. 6 ac Iau – 1af Owen Schroder, Ysgol Cwrtnewydd



Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo [neu gyfuniad] Unigol Bl. 10 ac o dan 19 oed – 2il Klean Dalton, Ysgol Gyfun Llambed



Unawd 19 – 25 oed – 1af a Cyflwyno Alaw Werin Unigol 19 – 25 oed 3ydd - Gwennan Jones, Aelwyd Llambed



Llefaru Unigol 19 – 25 oed – 3ydd a Cyflwyno Alaw Werin Unigol 19 – 25 oed - 2il - Elin Haf Jones, Aelwyd Pantycelyn



Cân Actol [hyd at 150 o blant] – 1af Ysgol Cwrtnewydd



Côr [hyd at 150 o blant] – 3ydd Ysgol Carreg Hirfaen